




# Ysgol Gwyddorau'r Ddaear a'r Amgylchedd

Rhaglenni Gradd **Israddedig**

[www.cardiff.ac.uk/cy/earth-environmental-sciences](http://www.cardiff.ac.uk/cy/earth-environmental-sciences)



# Croeso i'n Hysgol



Mae ein rhaglenni  
gradd hyblyg yn  
caniatáu ichi  
deilwra'ch cwrs i'ch  
diddordebau a'ch  
dyheadau gyrfaol.



## Cyflogadwyedd

**uchel** 95% canran ein  
graddedigion oedd mewn  
swydd, a / neu astudiaethau  
pellach, i fod i ddechrau  
swydd neu gwrs newydd,  
neu'n gwneud gweithgareddau  
eraill megis teithio, 15 mis ar  
ôl gorffen eu cwrs.

**Asiantaeth Ystadegau Addysg  
Uwch. Arolwg Hynt Graddedigion  
Diweddaraf (2018/19)**



## Cyfleusterau rhagorol

Rydym ni wedi buddsoddi  
yn ein cyfleusterau  
astudio, cymorth a  
chymdeithasol sy'n golygu  
y byddwch yn elwa ar yr  
amgylchedd gorau posibl i  
ddysgu a llwyddo ynddo.

“Rydw i wedi  
cael cyfleoedd  
a phrofiadau  
anhygoel diolch  
i Gaerdydd.”

**Jess Cartwright**





# 8fed yn y DU ar gyfer ymchwil i Systemau'r Ddaear a Gwyddorau'r Amgylchedd

Fframwaith Rhagoriaeth  
Ymchwil 2021

## Dysgu ymarferol

Rydym ni'n cynnig llawer o ddosbarthiadau maes a gwaith labordy i sicrhau eich bod yn graddio gyda digon o brofiad a sgiliau ymarferol.

## Cynnwys

|                                           |    |
|-------------------------------------------|----|
| Byd o gyfleoedd                           | 2  |
| Dewis Caerdydd                            | 4  |
| Ein cyfleusterau                          | 6  |
| Lleoliadau proffesiynol                   | 8  |
| Blwyddyn dramor                           | 10 |
| Eich profiad dysgu                        | 11 |
| Ein rhaglenni gradd                       | 13 |
| • Dewis cwrs                              | 13 |
| • Daearyddiaeth Amgylcheddol              | 14 |
| • Geowyddorau Amgylcheddol                | 16 |
| • Daeareg Fforio                          | 18 |
| • Daearyddiaeth Forol                     | 20 |
| • Daeareg                                 | 22 |
| • Daearyddiaeth Ffisegol                  | 24 |
| • Cynaliadwyedd Amgylcheddol Gwyddoniaeth | 26 |
| Astudiaethau pellach                      | 27 |
| Ymchwil sy'n bwysig                       | 29 |
| Cyflogadwyedd a gyrfaodd                  | 31 |
| Prifddinas                                | 33 |
| Prifysgol flaenllaw                       | 34 |
| Byw yng Nghaerdydd                        | 35 |
| Ceisiadau                                 | 36 |
| Sut i ddod o hyd i'r Ysgol                | 37 |

“Mae'r amrywiaeth o fodiwlau wedi caniatáu i mi gael swyddi mewn gwahanol sectorau.”

Kate McElligott

Hawlfraint yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch Cyfyngedig 2021. Ni all Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch Cyfyngedig dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw gasgliad y bydd trydydd partion yn ei wneud o ganlyniad i'w data.



# Byd o gyfleoedd

Croeso i Ysgol Gwyddorau'r Ddaear a'r Amgylchedd  
ym Mhrifysgol Caerdydd.







Mae ein myfyrwyr yn elwa o addysgu o ansawdd a gaiff ei lywio gan ymchwil, gan sicrhau'r profiad dysgu gorau posibl. Bydd astudio gwyddorau'r ddaear a'r amgylchedd yng Nghaerdydd yn eich paratoi am ystod eang o gyfleoedd gyrfa cyffrous ac amrywiol.

Rydym ni'n gweithio'n galed i greu'r amgylchedd dysgu perffaith i chi. Mae'r cyfuniad o ragoriaeth addysgu ac ymchwil yn ein hysgol yn gyfle i chi ddysgu gan rai o academyddion mwyaf blaenllaw'r byd. Byddwch yn cael y gefnogaeth i sicrhau eich bod yn manteisio i'r eithaf ar eich profiad yn y brifysgol, a bydd gennych fynediad at ein cyfleusterau addysgu o'r ansawdd gorau – o lyfrgelloedd a darlithfeydd, i labordai ac adnoddau dysgu ar-lein.

Rydym ni'n ymfalchïo yn y ffordd yr ydym ni'n cefnogi ein myfyrwyr i gyflawni eu potensial ac i raddio fel unigolion hyderus a medrus sy'n gallu addasu, ac sy'n barod am fywyd ar ôl Prifysgol Caerdydd.

Yn y llyfryn hwn, cewch wybodaeth benodol am eich pwnc arbenigol, ein hysgol a'r cyfleoedd sydd ar gael i chi. Rydym ni wedi cynnwys gwybodaeth am ddinas Caerdydd a'i hamgylchedd hyfryd sy'n cynnig labordy naturiol rhagorol i'n gwyddonwyr Daeear a Môr.

Os hoffech drefnu ymweliad, mae croeso i chi gysylltu. Mae ein rhif ffôn a'n cyfeiriadau ebost ar gael ar y dudalen gefn.

Gobeithiwn y byddwch yn gallu ymuno â ni yn fuan, ond am y tro, dymunwn bob llwyddiant i chi yn eich astudiaethau!

**Yr Athro Ian R. Hall**  
Pennaeth yr Ysgol





# Dewis Caerdydd

O gyrsiau hyblyg i deithiau maes cyffrous, mae digon o resymau dros ddewis Caerdydd.







## Dyma'r pum prif reswm dros astudio yn yr Ysgol Gwyddorau'r Ddaear a'r Amgylchedd:

### 1. Gwaith maes

Mae gwaith maes yn brofiad hanfodol ar gyfer ein holl fyfyrwyr ac mae'n cyfrannu at ddysgu a datblygiad personol effeithiol, yn ogystal â chreu profiadau cofiadwy mewn lleoliadau cyffrous.

Rydym ni'n cynnig ystod eang o deithiau maes yn y DU a thramor i fyfyrwyr ar bob gradd israddedig, lle byddwch yn defnyddio'r sgiliau rydych chi wedi'u dysgu mewn darlithoedd. Mae cost yr holl deithiau maes gofynnol yn rhan o ffioedd eich cwrs.

### 2. Lleoliadau gwaith

Gall myfyrwyr ar ein holl gyrsiau dreulio blwyddyn un ai yn y DU neu dramor yn ennill profiad gwaith gwerthfawr cyn iddynt raddio. Mae'n gyfle gwych ar ddiwedd eich ail flwyddyn i ymgymryd a rôl broffesiynol gyda chwmni neu sefydliad. Mae rhai o'n myfyrwyr wedi bod yn llwyddiannus yn sicrhau swyddi parhaol gyda'r cwmnïau aethant ar leoliad iddynt ar ôl graddio.

### 3. Cyrsiau hyblyg

Rydym ni'n cynnig amrywiaeth hyblyg o raglenni gradd israddedig, sydd ar gael fel gradd baglor tair blynedd (BSc) neu radd meistr israddedig pedair blynedd (MSci). Mae gan y rhan fwyaf o'n cyrsiau semester cyntaf cyffredin, felly rydych chi'n rhydd i gyfnewid rhyngddynt tan ddiwedd y semester cyntaf os ydych chi'n newid eich meddwl. Gallwch gyfnewid rhwng cyrsiau yn yr un

ddisgyblaeth e.e. Gwyddor y ddaear (Daeareg Fforio, Daeareg, Geowyddor Amgylcheddol) neu ddaeryddiaeth (Daearyddiaeth Ffisegol, Daearyddiaeth Amgylcheddol a Daearyddiaeth Morol) tan ddiwedd blwyddyn un. Gall myfyrwyr Gwyddorau Cynaliadwyedd Amgylcheddol drosglwyddo i radd Daearyddiaeth arall ar ddiwedd blwyddyn un.

### 4. Rhagoriaeth ym meysydd addysgu ac ymchwil

A ninnau'n un o brifysgolion Grŵp Russell, rydym ni'n cynnig mynediad i chi at addysgu gwych a chyfleusterau ymchwil o'r radd flaenaf. Byddwch wedi eich amgylchynu gan ddarlithwyr o safon byd-eang a grŵp o gymheiriaid talentog a llawn cymhelliant. Yn asesiad diweddaraf y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF 2021), barnwyd bod 100% o'n hymchwili yn arwain y byd neu'n rhagorol yn rhyngwladol, sy'n golygu ein bod yn 8fed yn y DU o ran ymchwil gyffredinol ym meysydd Systemau'r Ddaear a Gwyddor Amgylcheddol.

### 5. Rhagolygon gwych o ran gyrfa

Mae ein myfyrwyr yn mynd ymlaen i weithio mewn amrywiaeth eang o yrfaoedd, o ymgynghori amgylcheddol a daeareg peirianeg i gadwraeth forol. Mae gennym lu o gysylltiadau â chyfoeth o gwmnïau yn y diwydiant, gan gynnwys cwmnïau arolygu geodechnegol a morol yn ogystal â chwmnïau fforio am fwynau, sy'n darparu lleoliadau gwaith a phrosiectau israddedig i'n myfyrwyr.





# Ein cyfleusterau

Rydym wedi sicrhau bod ein hamgylchedd yn diwallu eich holl anghenion er mwyn eich helpu i gyflawni eich potensial.





## Cyfleusterau'r ysgol

Byddwch yn astudio yn y Prif Adeilad ar Gampws Parc Cathays. Mae'r adeilad wedi'i leoli ym Mhlas y Parc, sy'n daith gerdded fer o undeb y myfyrwyr, gwasanaethau cymorth a chanol y ddinas. Mae gennym ddetholiad o ddarlithfeydd, lolfeydd cyfrifiadura, mannau ymgynnull â seddi, a llyfrgell.

## Gwasanaethau llyfrgelloedd

Mae'r Llyfrgell Wyddoniaeth ar lawr cyntaf y Prif Adeilad ac mae'n cynnwys casgliadau ar fiowyddorau, cemeg, cyfrifiadureg, a gwyddorau'r ddaear a'r amgylchedd. Gallwch fenthyg hyd at 35 o eitemau ar y tro. Mae'r benthyciadau safonol yn fenthyciadau pythefnos neu fis o hyd ac mae pob benthyciad yn adnewyddu'n awtomatig oni bai bod rhywun arall wedi gwneud cais am yr eitem. Mae llawer o lyfrau a chyfnodolion ar gael ar ffurf electronig hefyd.

Mae llyfrgellwyr pwnc yno i'ch helpu gyda'ch holl anghenion astudio ac ymchwil. Maent hefyd yn cynnal gweithdai ynghylch chwilio am wybodaeth ac ymchwil llenyddiaeth.

Mae'r llyfrgell a'r cyfleusterau cyfrifiadurol ar gael drwy'r dydd ac yn gynnar gyda'r nos yn ystod y tymor.

## Cyfleusterau allweddol

O'r technegau dadansoddol diweddaraf i long ymchwil arfordirol, mae ein cyfleusterau'n cefnogi ymchwil a gweithgareddau addysgu ym mhob rhan o'r Ysgol.

Mae ein cyfleusterau'n cynnwys:

- Labordy seismig 3D
- Cyfleuster microbaladr electron
- Sganiwr laser daearol
- Goleuni Arweiniol RV
- Cyfleuster systemau palaeohinsawdd a hinsawdd
- Dadansoddi elfennau
- Cyfleuster microsgopeg a delweddu
- Paratoi geocemegol
- Paratoi cerrig
- Cyfrifiadura perfformiad uchel

## Cyfleusterau TG

Mae cyfleusterau cyfrifiadurol ar gael yn Ysgol Gwyddorau Daeareg ac Amgylcheddol ac yn y Llyfrgell Wyddoniaeth.

Rydym ni'n cynnig ystod o ddeunydd ac adnoddau dysgu ar Learning Central. System e-ddysgu ar y rhyngwyd yw hon a gall myfyrwyr ei defnyddio unrhyw le, unrhyw adeg. Mae wi-fi ar gael ym mhob rhan o'r campws.

## Cynllun tiwtor personol a mentora myfyrwyr

Cewch diwtor personol i'ch helpu a'ch cynghori yn ystod eich amser ym Mhrifysgol Caerdydd. Dylai eich tiwtor fod yn un o'r bobl gyntaf i chi fynd atyn nhw yn yr ysgol os oes gennych unrhyw broblemau neu gwestiynau. Gall gynnig help, anogaeth ac adborth ynghylch eich perfformiad ar y cwrs.

Rydym hefyd yn cynnal Cynllun Mentora Myfyrwyr lle gall myfyrwyr blwyddyn gyntaf gael cyngor a chefnogaeth fugeiliol gan fyfyrwyr sydd wedi bod yno ers peth amser.

Mae eich darlithwyr ar gael bob amser i'ch helpu ag ymholiadau sy'n benodol i'r pwnc a byddant yn cefnogi eich dysgu trwy ddsbarthiadau enghreifftiol, tiwtorialau a sesiynau cymorth.

## Cymdeithas y Ddaear

Mae Cymdeithas y Ddaear, ein cymdeithas a arweinir gan fyfyrwyr, yn ffordd wych o gwrdd â phobl newydd a chael ychydig o hwyl. Mae hefyd yn gallu eich helpu i roi cynnig ar bethau newydd ac, mewn rhai achosion, yn gallu gwella eich rhagolygon gyrfa ar gyfer y dyfodol drwy fod yn rhan o ddigwyddiadau elusennol ac academiaidd y gymdeithas, a digwyddiadau wedi'u harwain gan ddiwydiant.

Mae'r Gymdeithas yn cynnal digwyddiadau gan gynnwys dawns diwedd y flwyddyn, amryw deithiau maes a digwyddiadau cymdeithasol rheolaidd.

## Cangen Myfyrwyr Cymdeithas y Daearegwyr Economaidd

Mae cangen Cymdeithas Daearegwyr Economaidd Prifysgol Caerdydd yn gymdeithas academiaidd weithredol a gaiff ei rhedeg gan fyfyrwyr sy'n denu siaradwyr gwadd allanol yn rheolaidd o'r diwydiant a'r byd academiaidd, yn ogystal â threfnu darlithoedd gan aelodau o'r ysgol.

Mae'r gymdeithas yn trefnu teithiau maes i leoedd diddorol gan gynnwys dyddodion mwynau a chloddfeydd ledled Ewrop. Yn ddiweddar, mae ein myfyrwyr wedi bod yn Iwerddon, Sweden, y Ffindir a Serbia.

## Cyfleusterau cyfagos

Mae ein hysgol yn yr un adeilad â swyddfa Gymreig Arolwg Daearegol Prydain a drws nesaf i Amgueddfa Cymru, gan ddarparu mynediad hawdd i'r orielau arddangos a'r casgliadau i ychwanegu at ein haddysgu.

Mae gan Arolwg Daearegol Prydain Cymru bwyslais amgylcheddol cryf ac mae'n helpu i gynnig cymorth ar gyfer prosiectau myfyrwyr ynghyd â chyngor ar yrfaoedd a sgiliau proffesiynol.





# Lleoliadau proffesiynol

Mae lleoliad gwaith proffesiynol yn ffordd wych i chi ddefnyddio'r wybodaeth y byddwch chi'n ei dysgu yn ystod eich dwy flynedd gyntaf yn astudio.

Mae cyflogwyr yn edrych fwyfwy am raddedigion sydd â phrofiad yn y diwydiant. Ar y rhan fwyaf o'n cyrsiau, cewch gyfle i ymgymryd â lleoliad proffesiynol rhwng eich ail a'ch trydedd flwyddyn yn astudio. Fel arfer, mae'n swydd â thâl a gellir ei chyflawni yn y DU neu dramor.

## Pam lleoliad proffesiynol?

Mewn marchnad swyddi gystadleuol i raddedigion, gall lleoliad eich helpu i sicrhau sgiliau a phrofiad ychwanegol fydd yn sicrhau eich bod yn sefyll allan. Gallai eich helpu i gael rôl barhaol ar ôl graddio, yn ogystal â chynniro cyd-destun o'r byd go iawn i gefnogi eich astudiaethau. Mae gan y rhan fwyaf o leoliadau gyflogau cystadleuol, sy'n cynnig cyfle ardderchog i ennill cyflog fydd yn helpu i gynnal eich astudiaethau.

Os nad ydych yn siŵr pa lwybr gyrfa i'w ddilyn, gall blwyddyn ar leoliad eich helpu i benderfynu beth hoffech ai wneud. Gallai hyn eich helpu i wneud y penderfyniadau hollbwysig hynny am eich dyfodol.

Mae cyflogwyr yn ystyried lleoliadau gwaith fel cyfle i dreialu ymgeiswyr da i recriwtio ar gyfer swyddi i raddedigion, ac mae rhai o'n myfyrwyr wedi llwyddo, ar ôl graddio, i gael swyddi parhaol gyda'r cyflogwyr y buon nhw'n treulio amser gyda nhw ar leoliad gwaith.

## Ble gallaf i gwblhau fy lleoliad?

Mae gan Brifysgol Caerdydd gysylltiadau â thros 300 o sefydliadau a gallwn gynnig y cyfle i chi dreulio cyfnod ar leoliad ledled y byd.

Mewn blynyddoedd diweddar, mae ein myfyrwyr wedi cwblhau lleoliadau gyda Swyddfa Hydrograffeg y DU, Gardline, Titan, Fugro Marine Ltd, Bwrdd Porthladd Dover, Panama Canal, Mineco, Parc Natural, Sharklab a mwy.

## Sut mae'n gweithio?

Fel arfer, bydd eich lleoliad yn para rhwng 10 a 12 mis ac yn cael ei gynnal rhwng ail a thrydedd flwyddyn eich cwrs gradd.

Byddwch yn dychwelyd i Brifysgol Caerdydd ar ôl cwblhau lleoliad gwaith llwyddiannus ar ddechrau semester yr hydref, yn barod ar gyfer blwyddyn arall o astudio.

Gan fod blwyddyn lleoliad yn rhan o'ch astudiaethau academaidd, byddwch yn talu ffioedd dysgu. Mae ffioedd blwyddyn lleoliad yn is, a chewch fanylion ar ein gwefan.

Bydd gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd Prifysgol Caerdydd yn eich cefnogi trwy gydol y broses gyda hysbysiadau swydd rheolaidd, cyflwyniadau gan gwmnïau, gweithdai CV, help wrth baratoi ar gyfer cyfweiliadau a chanolfannau asesu, a chynghor un i un wedi'i deilwra.

Er ein bod yn gallu eich helpu i ddod o hyd i gyfleoedd o ran lleoliadau, eich cyfrifoldeb chi yw gwneud yn siŵr eich bod yn cael lleoliad. Os nad ydych yn gallu cael lleoliad gwaith, byddwch yn trosglwyddo i'r un fersiwn o'ch cwrs gradd heb orffen blwyddyn ar leoliad.

Gallwch gofrestru ar leoliad proffesiynol ar yr amod eich bod yn cyflawni marciau digonol yn y flwyddyn gyntaf a bod lleoliadau addas ar gael.

Nid oes angen i chi wneud cais am fersiwn o'r cwrs hwn sy'n cynnwys lleoliadau. Mae digon o amser i gael blas ar fywyd yn y brifysgol cyn i chi benderfynu a hoffech chi fynd ar leoliad gwaith proffesiynol. Gofynnir i chi ar ddechrau eich ail flwyddyn, os hoffech chi fynd ar leoliad gwaith, a byddwch yn newid i'r BSc pedair blynedd gyda Lleoliad Gwaith Proffesiynol drwy drosglwyddiad mewnol.



Peidiwch â chymryd ein gair ni amdano yn unig...

**Mwynheais fy astudiaethau ym Mhrifysgol Caerdydd yn fawr, yn enwedig y cyfle i weithio ym Mhorthladd Dover am flwyddyn. Roedd hynny o gymorth mawr ynghylch defnyddio'r hyn roeddwn i wedi'i ddysgu yn y brifysgol yn ogystal â'm helpu i ddeall pa yrfa fyddai orau imi. Ar ôl graddio, dychwelais i Dover lle rwy'n rheolwr amgylchedd a chynnaladwyedd yn un o borthladdoedd prysuraf y deyrnas bellach.**

Megan Turner, Daearyddiaeth y Môr gyda Lleoliad Proffesiynol (BSc, 2019)





Fy mlwyddyn dramor oedd blwyddyn fwyaf cofiadwy a thrawsnewidiol fy mywyd. Fe ddes i adnabod rhai o fy ffrindiau agosaf, profi pethau nad oeddwn erioed wedi dychmygu gwneud, a dysgu o'r newydd i werthfawrogi pobl eraill.

**Leah Sier, Daeareg gyda blwyddyn yn astudio dramor yn Awstralia**



# Blwyddyn dramor

Manteisiwch ar y cyfle i ehangu eich gwybodaeth gyda'r sgiliau y byddwch yn eu hennill drwy fyw ac astudio mewn gwlad arall.

Mae ein partneriaethau niferus gyda'r prifysgolion gorau yn golygu y gallwch astudio yn rhai o'r dinasoedd mwyaf eiconig ac ysbrydoledig yn y byd. Mae'r Iseldiroedd, Sweden, a'r Almaen ymhlith y cyrchfannau, yn ogystal â phrifysgolion ymhellach i ffwrdd yn yr Unol Daleithiau, Awstralia, Seland Newydd, Canada a Hong Kong.

## Pam blwyddyn dramor?

Bydd profiad rhyngwladol yn gwella eich CV drwy ddangos sgiliau hanfodol fel cyfathrebu, hyblygrwydd a gweithio ar y cyd, a gall roi cyfleoedd gwerthfawr i chi rwydweithio hefyd. Mae astudio dramor yn ffordd wych o ehangu eich gwybodaeth academaidd, ymgolli mewn diwylliant arall a chaffael sgiliau y gallai cyflogwyr eu gwerthfawrogi.

Ond, yn anad dim, byddai'n ddechrau ar antur newydd. Byddwch yn profi diwylliannau a safbwyntiau eraill, gan wneud ffrindiau newydd a rhannu profiadau bythgofiadwy yn ystod eich amser dramor. Gallech hefyd gael y cyfle i ddysgu iaith newydd.



## Sut y bydd yn gweithio?

Bydd eich lleoliad yn para un flwyddyn academaidd (bydd hyn yn amrywio gan ddibynnu ar y lleoliad o'ch dewis) ac yn cael ei gynnal rhwng ail a thrydedd flwyddyn eich gradd.

Mae'r tîm Cyfleoedd Byd-eang yn adnodd pwrpasol ac yn ffynhonnell arbenigedd ar gyfer yr holl gyfleoedd rhyngwladol sydd ar gael ym Mhrifysgol Caerdydd. Byddant yn gallu eich cefnogi wrth wneud cais os ydych yn ystyried treulio cyfnod dramor yn astudio, gweithio neu wirfoddoli, ac maent yn cynnig ystod o gyfleoedd rhyngwladol.

Byddwch yn dychwelyd i'r brifysgol ar ôl cwblhau eich blwyddyn dramor yn llwyddiannus ar ddechrau semester yr hydref, yn barod ar gyfer blwyddyn arall o astudio.

Er mwyn cyflwyno cais ar gyfer rhaglen Blwyddyn Dramor, rhaid i chi ddewis fersiwn pedair blynedd o'r radd baglor gyda blwyddyn dramor. Bydd ganddi ei chod UCAS ei hun ac mae'n gwsr ar wahân i'r radd baglor tair blynedd. Nid oes rhaid i chi ymrwymo i fynd i brifysgol dramor tan ddechrau eich ail flwyddyn, felly mae digon o amser ar gyfer ychwanegu hwn yn ddiweddarach os nad ydych yn sicr eto ynglŷn â beth hoffech ei wneud.



Peidiwch â chymryd ein gair ni amdano yn unig...

**Ym Mhrifysgol Columbia Brydeinig, cefais fy nghyflwyno i draddodiad byw diwylliant brodorol a dysgais am athroniaeth gyfoes ar baradeimau economaidd. Gweithiais gyda chleientiaid i arloesi ar gampws cynaliadwy, a wneud i waith i am y morfilod danheddog sydd mewn perygl mewn ymateb i alwad gan y llywodraeth am arbenigedd. Rydyn ni'n dysgu trwy wneud pethau newydd - mae'r dysgu gorau yn digwydd pan mae popeth yn newydd.**

Caroline Pilat,  
Geowyddoniaeth Amgylcheddol



# Eich profiad dysgu

Nod y flwyddyn gyntaf yw rhoi sylfaen cadarn i chi yng ngwyddorau'r Ddaear a daearyddol y gallwch adeiladu arno gyda modiwlau arbenigol wrth i'r cwrs fynd rhagddo.





# Nid oes llawer o'n myfyrwyr blwyddyn gyntaf wedi gallu astudio pynciau gwyddor y ddaear yn yr ysgol. Dyma pam bod ein semester cyntaf yn gyffredin i'r rhan fwyaf o'n rhaglenni gradd.

Mae'r flwyddyn gyntaf yn gyffredin i'n holl raglenni gradd, ar wahân i'r radd Gwyddor Cynaliadwyedd Amgylcheddol sydd â strwythur unigryw nad yw'n rhannu blwyddyn gyntaf gyffredin gyda'n rhaglenni gradd eraill. Cewch esboniad o strwythur y cwrs hwn ar dudalen 26.

## Blwyddyn un

Yn ystod y flwyddyn gyntaf, byddwn yn rhoi cyflwyniad i astudio'r Ddaear a'r moroedd fel system ac yn datblygu sgiliau gwyddonol allweddol. Bydd sgiliau cyffredinol megis arsylwi, rhifedd, cyflwyno a chyfathrebu, yn amhrisiadwy yn eich astudiaethau a'ch gyrfaeod yn y dyfodol. Rydym ni'n cyflwyno'r sgiliau hyn ac yn gadael i chi eu datblygu yn ystod y flwyddyn gyntaf.

Yn ystod yr wythnosau cyntaf byddwch yn mynd ar deithiau maes cyflwyniadol yn ne Cymru. Byddant yn rhoi blas i chi o'r hyn y byddwch yn ei ddysgu yn y flwyddyn gyntaf, yn gyfle i ymgyswngi i chi ymgyfarwyddo â chyflymder bywyd prifysgol, ac yn rhoi cyfleoedd i chi ddod i adnabod y myfyrwyr newydd eraill a'r staff.

Mae gwaith maes yn y flwyddyn gyntaf yn cynnwys teithiau diwrnod a hanner diwrnod yn rhan o'r modiwlau craidd, lle byddwch yn dysgu sgiliau maes hanfodol, er enghraifft defnyddio eich cwpawd a nodi prosesau daearegol a daearyddol yn y dirwedd.

Yn y gwanwyn, byddwch hefyd yn cymryd rhan mewn taith maes preswyl ac, yn dibynnu ar y rhaglen, gallech gael cyfle i wneud gwaith ar y môr.

Mae rhai o'n modiwlau blwyddyn gyntaf yn ymestyn dros y ddau semester, ac mae pob modiwl yn cynnwys darlithoedd a ategir gan waith labordy ymarferol er mwyn helpu i feithrin sgiliau ac atgyfnerthu cysyniadau allweddol. Mae nifer o'r modiwlau yn cynnwys prosiectau astudio unigol a grŵp a allai ei gwneud yn ofynnol i chi ddefnyddio ffotograffau neu ddata eraill rydych wedi'i gofnodi yn y maes.

Gan ein bod ni'n credu ei bod hi'n bwysig ystyried amrywiol sgiliau a chymwysterau'r myfyrwyr sy'n cyrraedd yr ysgol, mae'r flwyddyn gyntaf yn un eang ei chwmpas ac yn cydategu eich doniau a'ch diddordebau chi.

Mae gweithdai atodol ar gael i chi os oes arnoch angen cymorth ychwanegol. Bydd tiwtor personol yn cael ei neilltuo ar eich cyfer yn ystod wythnos gyntaf eich cwrs, a bydd y tiwtor hwn yn eich cynghori ynglŷn â'r ffordd orau o drefnu eich astudiaethau i fanteisio ar yr hyn rydych eisoes wedi ei gyflawni.

Gan fod y semester cyntaf yn gyffredin i'r rhan fwyaf o'n rhaglenni gradd israddedig, cewch drosglwyddo rhwng unrhyw un o'n rhaglenni gradd hyd at ddechrau'r ail semester yng nghanol mis Ionawr. Yn ystod yr ail semester bydd rhaglenni Gwyddorau'r Ddaear (Daeareg, Daeareg Fforio a Geowyddorau Amgylcheddol) yn astudio modiwlau unfath. Yn yr un modd mae ein rhaglenni gwyddorau amgylcheddol/daearyddol (Daearyddiaeth Amgylcheddol, Daearyddiaeth Forol a Daearyddiaeth Ffisegol) yn astudio'r un modiwlau yn yr ail semester. Golyga hyn, yn y rhan fwyaf o achosion, y gallwch gyfnewid rhwng y cyrsiau hyn hyd at ddiwedd y flwyddyn gyntaf.

## Aseu

Mae mwyafrif y modiwlau yn cael eu hasesu gan gyfuniad o arholiadau a mathau amrywiol o asesu parhaus, gan gynnwys traethodau, adroddiadau, poster i chyflwyniadau. Bydd natur a phwysiad yr asesu parhaus yn

amrywio yn ôl gofynion y modiwlau gwahanol. Bydd angen i chi gyrraedd safon foddhaol yn y 120 o gredydau a astudir cyn i chi symud ymlaen i'r ail flwyddyn.

## Blynnyddoedd dau a thri

Mae dewis ehangach o fodiwlau dewisol ar bob cwrs yn yr ail a'r drydedd flwyddyn.

Mae'r flwyddyn wedi ei rhannu'n ddau semester, y cyntaf rhwng dechrau mis Hydref a mis Ionawr (semester yr hydref) a'r ail rhwng mis Chwefror a mis Mehefin (semester y gwanwyn).

## Rhaglenni lleoliad proffesiynol

Os ydych yn dewis cwblhau cwrs gyda lleoliad proffesiynol, byddwch yn dechrau cyflogaeth gyda chyflog yn ystod blwyddyn tri. Byddwch yn dychwelyd i Brifysgol Caerdydd ar ôl cwblhau blwyddyn tri yn llwyddiannus ar ddechrau semester yr hydref, yn barod ar gyfer blwyddyn arall o astudio.

## Blwyddyn pedwar (Myfyrwyr MSci yn Unig)

Ym mlwyddyn pedwar y byddwch yn astudio ar gyfer eich gradd meist. Mae eich modiwlau craidd yn cynnwys eich traethawd hir (60 o gredydau) a modiwl gwaith maes.

Gallwch ddewis cwblhau traethawd hir eich gradd meist ar unrhyw elfen yn ymwneud â'r pwnc rydych chi wedi'i ddewis ac y gallwn ei oruchwylio yn yr ysgol. Gallwch naill ai ddewis o blith rhestr o brosiectau posibl a gaiff ei chylchredeg gan yr ysgol, neu gallwch weithio gyda goruchwyliwr i lunio prosiect mewn maes sydd o ddiddordeb arbennig i chi.

Byddwch yn gweithio un-i-un gyda goruchwyliwr ymchwil drwy gydol y flwyddyn a chydau grŵp ehangach o fyfyrwyr ymchwil a gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant o bosibl. Mae rhai o'r prosiectau ymchwil meist gorau wedi'u cyhoeddi mewn llenyddiaeth wyddonol.





# Dewis cwrs



Rydym yn cynnig rhaglenni baglor yn y gwyddorau (BSc) neu radd meistr (MSci) gydag amrywiaeth o opsiynau, ond pa un sy'n iawn i chi?

## BSc

Mae Baglor yn y Gwyddorau yn rhaglen gradd tair blynedd sy'n rhoi'r cyfle i chi gwblhau lleoliad proffesiynol rhwng yr ail a'r drydedd flwyddyn.

- Rhaglen gradd tair blynedd (pedair blynedd, os ydych yn dewis cofrestru ar leoliad proffesiynol)
- Ystod eang o yrfaoedd ar gael i chi yng ngwyddorau'r ddaear a daearyddiaeth, a llawer o feysydd eraill fel busnes, cyfathrebu neu addysgu
- Perffaith ar gyfer myfyrwyr y mae'n well ganddynt waith prosiect cymhwysol i yrfa ymchwil broffesiynol
- Bydd ein graddau achrededig yn rhoi cyflwyniad gwyb ac uchel ei barch i nifer o broffesiynau'r ddaear a'r amgylchedd
- Cewch gyfle i ychwanegu at eich astudiaethau gyda'n gradd meistr alwedigaethol blwyddyn o hyd mewn

Daeareg Amgylcheddol Gymhwysol (MSc), Peryglon Amgylcheddol (MSc) neu Ddŵr mewn Byd sy'n Newid (MSc)

- Mae ein holl raglenni baglor hefyd ar gael fel dewis pedair blynedd lle byddwch yn treulio'r trydedd flwyddyn ar leoliad proffesiynol. Gallwch gofrestru ar y rhaglenni hyn yn ystod yr ail flwyddyn ar yr amod fod fyfyrwyr yn cyflawni marciau digonol yn y flwyddyn gyntaf a bod lleoliadau addas ar gael.

## MSci

Mae Meistr y Gwyddorau yn rhaglen gradd pedair blynedd sy'n rhoi'r cyfle i chi ystyried eich dewis o faes pwnc yn fwy na'r rhaglen radd baglor tair blynedd gyfatebol. Bydd gennych y cyfle i ymgymryd â'ch prosiect ymchwil eich hun fel rhan o'r radd hon, ond disgwylir i chi hefyd gyflawni cyfartaledd o dros 60% ym mhob blwyddyn i aros ar y radd meistr.

- Rhaglen radd dros gyfnod o bedair blynedd
- Yr un gofynion mynediad â'r rhai ar gyfer y radd baglor
- Mae opsiynau mewn modelu amgylcheddol neu sgiliau busnes ac ymchwil sy'n rhoi sylfaen gwell ar gyfer mynd i yrfaoedd ymchwil proffesiynol yng ngwyddorau'r ddaear a daearyddol
- Mae mwy o hyblygrwydd i ddewis pa bynciau a modiwlau sy'n cyfateb i'ch diddordebau
- Cewch gyfle i weithio o fewn ein grwpiau ymchwil
- Mae rhagor o gyfleoedd i gael eich addysgu mewn grwpiau bach ac yn unigol
- Lefel uwch o addysg y gellir ei chymharu â chymhwyster gradd gyntaf rhyngwladol.

## Trosglwyddo rhwng rhaglenni

Mae'n bosibl trosglwyddo o radd baglor i radd meistr ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn. Yn yr un modd, gellir trosglwyddo o radd meistr i radd baglor gyfatebol ar ddiwedd blwyddyn un a dau hefyd.



# Daearyddiaeth Amgylcheddol

Côd UCAS: **K32K** (BSc), **Y32N** (MSci), **K32L** (Blwyddyn dramor)



Archwiliwch brosesau arwyneb y Ddaear ac astudio effeithiau dynol ar yr amgylchedd drwy gymysgedd o ddarlithoedd a theithiau maes.

Ydych chi'n frwd dros ddod o hyd i atebion i'r bygythiadau amgylcheddol pwysicaf sy'n wynebu ein planed heddiw? Mae meddu ar ddealltwriaeth wyddonol ddofn o'r amgylchedd naturiol yn allweddol i ddod o hyd i faterion a mynd i'r afael â nhw, megis newid yn yr hinsawdd, llygredd dŵr, diraddiad pridd ac erydu. Os ydych yn poeni am iechyd y planed ac am wneud gwahaniaeth cadarnhaol, gallai ein cwrs Daearyddiaeth Amgylcheddol fod yn ddelfrydol i chi.

Byddwch yn archwilio prosesau arwyneb sy'n digwydd yn yr amgylchedd naturiol ac yn datblygu dealltwriaeth wyddonol o'r effaith a gaiff pobl ar gemeg ac ecoleg amgylchedd ein planed dros amser. Byddwch yn astudio amgylcheddau gwahanol ledled y byd, a hynny ar y tir a'r môr, o amgylcheddau pegynol eithafol i riffiau cwrel trofannol. Bydd y cwrs hefyd yn trafod y pwysau ar ein hamgylcheddau heddiw ac yn y dyfodol, gan gwmpasu pynciau megis cemeg ansawdd dŵr a mapio llystyfiant a phriddoedd.

Byddwch yn cael profiad ymarferol o fapio a monitro ac yn llunio eich mapiau eich hun gan ddefnyddio meddalwedd mapio broffesiynol, o'r radd flaenaf.

Bydd graddedigion yn gadael gyda gwaith maes ymarferol ac ymchwil gyfoes yn ogystal ag ystod o sgiliau daearyddol mewn mapio, ymchwil, dadansoddi a datrys problemau y gellir eu trosglwyddo ar draws ystod o rolau a diwydiannau.

Gallwch ddewis rhwng y radd baglor tair blynedd a'r radd meistyr pedair blynedd. Mae ein graddau meistyr yn cynnwys pedwaredd flwyddyn o astudio lle byddwch yn gweithio ar brosiect ymchwil annibynnol gyda gwyddonydd blaenllaw o'r ysgol a'i dîm ymchwil. Byddwch yn datblygu'r sgiliau ymchwil uwch sydd eu hangen ar gyfer gyrfa ym meysydd ymchwil a datblygu academiaidd neu ddiwydiannol.

## Cyfleoedd gwaith maes

Mae Cymru'n faes chwarae i ddaearyddwyr amgylcheddol. O fynyddoedd trawiadol y gogledd i aber llanwol bioamrywiol yn y de, mae gennym ystod enfawr o amgylcheddau naturiol i'w harchwilio. Rydym yn manteisio i'r eithaf ar ein lleoliad gan gymryd triapiau dydd rheolaidd i Benrhyn Gwŷr, Arfordir Treftadaeth Morgannwg a Bannau Brycheiniog yn Ne Cymru.

Bydd cyfleoedd hefyd i fynd dramor; ac yn y gorffennol rydym wedi bod i'r Iseldiroedd a'r Swistir. Mae cost yr holl deithiau maes gofynnol yn rhan o ffioedd eich cwrs.

## Gyrfaoedd a chyflogadwyedd

Gyda'r blaned dan bwysau cynyddol yn sgîl newid yn yr hinsawdd, gorecsbloetio a llygredd, mae galw mawr am wybodaeth a sgiliau daearyddwyr amgylcheddol.

Bydd gan ddaearyddwyr amgylcheddol rôl bwysig mewn dyfodol mwy gwyrdd a charbon isel gan ddefnyddio eu dealltwriaeth o'r ddaear i ddod o hyd i atebion cynaliadwy i'r heriau a wynebwn yn y dyfodol.

Gallwch ddewis gweithio mewn amrywiaeth o ddiwydiannau a rolau gwahanol gan gynnwys cadwraeth a rheoli amgylcheddol, fel ymgynghorydd amgylcheddol neu ddadansoddwr geo-ofodol. Bydd gennych hefyd sgiliau cyflogadwy hanfodol y mae sectorau fel yswiriant, cyllid, addysg a chynllunio yn chwilio amdanynt.

Mae rhai o'n myfyrwyr yn y gorffennol wedi mynd ymlaen i weithio yn Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, llywodraeth leol, cwmnïau ymgynghori amgylcheddol ac elusennau amgylcheddol.

Peidiwch â chymryd ein gair ni amdano yn unig...

**Yn ystod yr ychydig wythnosau cyntaf, byddwch yn mynd ar lawer o deithiau maes. Mae'r rhain yn helpu i'ch dysgu chi am dechnegau newydd ac yn rhoi trosolwg i chi o'r cwrs, ac maen nhw'n gyfle gwyb i gwrdd â phobl newydd. Tra bod pawb dwi'n rhannu fflat â nhw yn eistedd mewn darlithoedd, ro'n i allan yn crwydro Caerdydd a'r ardal gyfagos.**

Philippa Smith





Dewisais astudio Geowyddorau Amgylchedd ym Mhrifysgol Caerdydd am amryw byd o resymau, ond y cyfle i fod ar leoliad diwydiannol am flwyddyn, yn ogystal â'r amrywiaeth o deithiau maes a safon uchel yr addysgu, oedd yn gwneud i'r brifysgol ragori ar fy newisiadau eraill. Mwynheais fy ngradd yn fawr iawn.

**Hanna Hayward, Geowyddorau Amgylcheddol**



# Geowyddorau Amgylcheddol

Côd UCAS: **F648** (BSc), **F649** (MSci), **F643** (Blwyddyn dramor)



Cyfle i archwilio gwahanol brosesau sy'n digwydd ar ein planed, fel glaw asid a chynhesu byd-eang, a dod o hyd i atebion i broblemau daearegol yn y DU ac o amgylch y byd.

Ydych chi'n chwilfrydig? Ydy'r ffordd mae'r Ddaear yn gweithio'n eich diddori? Mae geowyddonydd amgylcheddol yn defnyddio ei ddealltwriaeth o'r blaned a'i phrosesau i ragfynegi peryglon fel llifogydd a daeargrynfeydd, glanhau'r gwastraff peryglus a adewir gan ddiwydiannau fel gweithgynhyrchu cemegol neu gloddio, a helpu peirianwyr sifil i gynllunio'r gwaith o adeiladu ffyrdd, twneli ac adeiladau newydd.

Ar ein cwrs Geowyddorau Amgylcheddol byddwch yn ystyried y prosesau gwahanol sy'n digwydd ar ein planed fel daeargrynfeydd, glaw asid a chynhesu byd-eang. Byddwch yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddatrys problemau go iawn lle mae'r agweddau daearegol ar beirianeg sifil, monitro ac unioni amgylcheddol, a newid yn yr hinsawdd yn berthnasol yn y DU a ledled y byd. Hefyd, byddwch yn datblygu sgiliau lefel uchel mewn mapio, ymchwil, dadansoddi a datrys problemau.

Nid oes angen eich bod wedi astudio daeareg eisoes, gan y byddwn yn dechrau ym mwyddyn un gyda'r egwyddorion sylfaenol i sicrhau bod pawb ar yr un lefel.

Mae ein graddau wedi'u hachredu gan y Gymdeithas Ddaearegol, sef y corff proffesiynol ar gyfer y geowyddorau yn y DU. Rydym wedi gweithio gyda diwydiant i ddylunio ein gradd fel eich bod yn graddio

gyda'r sgiliau ymarferol sy'n ofynnol i fod yn geowyddonydd amgylcheddol proffesiynol. Mae'r sgiliau hyn yn cwmpasu gwaith maes, defnyddio offer ar gyfer monitro'r amgylchedd, casglu a chyflwyno data gan ddefnyddio meddalwedd Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS), yn ogystal ag ysgrifennu adroddiadau technegol.

Gallwch ddewis rhwng ein gradd baglor tair blynedd, y fersiwn pedair blynedd o'n gradd baglor gan gynnwys blwyddyn ar leoliad, neu ein gradd meist'r pedair blynedd. Yn y gorffennol mae ein myfyrwyr wedi mynd ar leoliadau gyda chwmnïau dŵr, cwmnïau peirianeg sifil a chwmnïau ymgynghori amgylcheddol.

Mae gradd Meistr yn cynnwys pedwaredd flwyddyn astudio ychwanegol lle byddwch yn gweithio ar brosiect ymchwil gyda gwyddonydd blaenllaw o'r ysgol a'i staff ymchwil. Byddwch yn ennill sgiliau datblygedig mewn ymchwil a chael profiad o roi eich canfyddiadau ar waith wrth ddatrys mater neu broblem mewn geowyddorau amgylcheddol, fel modelu effeithiau ffrwydradau llosgfynydd ar deithiau awyren neu effeithiau iechyd llwch llosgfynydd yn yr ysgyfaint.

## Cyfleoedd gwaith maes

Rydym yn manteisio i'r eithaf ar ein lleoliad ac yn mynd yn rheolaidd ar deithiau dydd

a theithiau preswyl hirach i ardaloedd o brydferthwch naturiol, yn ogystal ag i hen safleoedd diwydiannol a safleoedd cloddio yn Ne Cymru. Mae'r ardal yn ddelfrydol i addysgu sut mae daeareg yn effeithio ar dirwedd a diwydiant y rhanbarth.

Bydd hefyd gyfleoedd i fynd ar dripiâu tramor i ystyried peryglon amgylcheddol a phroblemau gwahanol, yn y gorffennom buom i Tenerife a Cyprus. Mae cost yr holl deithiau maes gofynnol yn rhan o ffioedd eich cwrs.

## Gyrfaoedd a chyflogadwyedd

Gyda'r blaned yn wynebu bygythiadau a heriau amgylcheddol cynyddol, yn rhai naturiol ac anthropogenig, mae galw cynyddol am wybodaeth a sgiliau geowyddonwyr amgylcheddol. Bydd geowyddonwyr amgylcheddol yn rhan bwysig o ddatblygu seilwaith cynaliadwy, prosiectau ynni gwyrdd a helpu i reoli a gwaredu llygredd a adewir gan hen ddiwydiannau fel cloddio a gweithgynhyrchu cemegol.

Gallwch ddewis gweithio mewn amrywiaeth o ddiwydiannau a rolau gan gynnwys cadwraeth a rheoli amgylcheddol, fel daearegwr peirianeg, peirianydd dŵr neu ymgynghorydd amgylcheddol. Bydd gennych hefyd sgiliau cyflogadwy hanfodol y mae sectorau fel yswiriant, cyllid, addysg a chynllunio yn chwilio amdanynt.

Mae rhai o'n myfyrwyr yn y gorffennol wedi mynd ymlaen i weithio yn Asiantaeth yr Amgylchedd, BAM Construction, Atkins, Dŵr Cymru, LCM Environmental Services a Mott MacDonald.



Peidiwch â chymryd ein gair ni'n unig...

Ar ôl graddio o dair blwyddyn wych yn astudio Geowyddorau Amgylcheddol, deuthum yn Swyddog Cadwraeth i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol lle rwy'n rheoli 270 erw o ofod gwyrdd yn Bermuda. Rwy'n gyson cael fy nghynorthwyo gan y profiadau a'r prosesau a addysgwyd yn ystod y cwrs. Enillais brofiad rhwyngwladol gwerthfawr a gwneud nifer o ffrindiau oes.

Lawrence Doughty,  
Geowyddorau Amgylcheddol





Diolch i fy astudiaethau ym Mhrifysgol Caerdydd, fe wnes i ddatblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth gadarn a'r hyder oedd eu hangen arnaf i weithio mewn rhannau anghysbell o'r byd. Mae'r pwyslais cryf ar fodiwlau cymhwysol a phrofiad o waith maes sy'n canolbwyntio ar archwilio yn Sbaen a Cyprus yn gwneud y cwrs hwn yn unigryw, ac roedd yn berffaith o ran fy mharatoi ar gyfer gyrfa mewn archwilio mwynau.

**Jemma Harrison, Daeareg Fforio**



# Daeareg Fforio

Côd UCAS: **F625** (BSc), **F626** (MSc), **F627** (Blwyddyn dramor)



Dysgwch sut i fforio'r Ddaear ar gyfer adnoddau naturiol yn rhan o'r cwrs unigryw hwn – yr unig gwrs yn y DU i israddedigion sy'n canolbwyntio ar roi hyfforddiant arbenigol ym maes fforio ar gyfer adnoddau.

Mae pobl wedi bod yn defnyddio adnoddau naturiol y Ddaear fel metelau, mwynau, olew a nwy ers canrifoedd i godi trefi a dinasoedd, pweru ein cartrefi ac i wneud y cerbydau, dyfeisiau ac offer y mae ein byd modern yn dibynnu arnynt. Mae adnoddau newydd yn gynyddol anos dod o hyd iddynt ac yn gofyn am sgiliau a thechnoleg arbenigol i ganfod ac ecsploetio'n gyfrifol. Chwilio am drysor yw daeareg fforio yn ei hanfod, er budd busnes a chymdeithasol. Bydd yn apelio at unrhyw un sydd â diddordeb yn natgelu dirgelon y Ddaear gan chwilio am yr adnoddau hanfodol a fydd yn cynnal ein cymdeithas yn y dyfodol.

Yn rhan o'n cwrs Daeareg Fforio, byddwch yn dysgu sut mae prosesau'r Ddaear wedi creu adnoddau naturiol y blaned a sut i fforio ar eu cyfer i ateb y galw yn y dyfodol. Bydd daearegwyr fforio'n hollbwsysig i sicrhau dyfodol carbon isel, drwy helpu i ateb y galw cynyddol am fetelau fel copr a lithiwm er mwyn cyflenwi'r diwydiant ynni adnewyddadwy sydd ei angen i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Nid oes angen eich bod wedi astudio daeareg eisoes gan y byddwch yn dechrau'r flwyddyn gyntaf gyda'r egwyddorion sylfaenol i sicrhau bod pawb ar yr un lefel.

Mae ein graddau wedi'u hachredu gan y Gymdeithas Ddaearegol, sef y corff proffesiynol ar gyfer y geowyddorau yn y DU. Rydym wedi gweithio gyda diwydiant i gynllunio ein cwrs fel eich bod yn graddio gyda'r sgiliau arbenigol sy'n ofynnol i fod yn daearegwr archwilio proffesiynol. Mae'r sgiliau hyn yn cwmpasu gwaith maes (ar wyneb y ddaear ac yn danddaearol), profiad o feddalwedd archwilio gyfoes, dadansoddi data mewn modd beirniadol, a'r hyder i wneud penderfyniadau allweddol o wybodaeth gyfyngedig. Mae gennym gynllun hirsefydlog sy'n rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr fynd ar leoliadau gwaith gyda chwmnïau fforio dros yr haf a chwblhau eu traethodau hir dros yr un cyfnod. Mae Prifysgol Caerdydd wedi bod yn hyfforddi peirianwyr cloddio a daearegwyr ers dros ganrif ac fe allwch chi fod yn rhan o'r stori barhaus hon.

Gallwch ddewis rhwng y radd baglor tair blynedd, y fersiwn pedair blynedd o'n gradd baglor gan gynnwys blwyddyn ar leoliad, a'r radd meistyr pedair blynedd. Mae ein gradd meistyr yn cynnwys pedwaredd flwyddyn astudio ychwanegol lle cewch gyfle i weithio ar brosiect ymchwil fforio gydag academydd o'r ysgol yn ei faes ymchwil. Byddwch yn ennill sgiliau datblygedig mewn ymchwil ac yn ennill

profiad o roi'ch canfyddiadau ar waith yng nghyd-destun diwydiannol.

## Cyfleoedd gwaith maes

Mae gennym hen fwynglawdd aur yn agos at Gaerdydd a nifer o dirweddau naturiol rhagorol i ni eu crwydro gerllaw. Gwnawn y mwyaf o'n lleoliad gan fynd ar dripiâu dydd a hirach rheolaidd i safleoedd mwyngloddio yng Nghymru benbaladr. Bydd yna hefyd gyfleoedd i fynd dramor; yn y gorffennol rydym wedi bod i Sbaen a Cyprus. Mae cost yr holl deithiau maes gofynnol yn rhan o ffioedd eich cwrs.

## Gyrfaedd a chyflogadwyedd

Mae ein galw cyson am fetelau, deunyddiau adeiladau ac adnoddau naturiol eraill yn golygu bod galw am wybodaeth a sgiliau arbenigol daearegwr fforio.

Gyda gradd mewn Daeareg Fforio mae gennych ystod o opsiynau gyrfa a gallwch wneud cais am rolau fel daearegwr fforio, hydroddaearegwr, mwynolegydd neu ymgynghorydd amgylcheddol. Mae agweddau ymarferol a busnes y radd yn golygu y bydd gennych hefyd sgiliau sy'n ddefnyddiol hefyd i sectorau fel yswiriant, cyllid, addysg a chynllunio.

Mae rhai o'n cynfyfyrwyr wedi mynd ymlaen i weithio i Anglo-American Plc, Northern Nickel, Karelian Gold Ltd, Mineco ac SRK Consulting.

Mae nifer o'n myfyrwyr sy'n treulio amser yn y diwydiant fel rhan o'u prosiect traethawd hir wedi mynd i weithio i'r un sefydliad ar ôl graddio.

Peidiwch â chymryd ein gair ni amdano yn unig...

Fe ges i'r cyfle i ymgymryd â lleoliad diwydiannol gyda darparwr gwasanaeth maes olew blaenllaw yn ne Libya. Drwy'r lleoliad hwn, cefais gipolwg unigryw ar agweddau ymarferol y diwydiant petroliwm, ac fe wnaeth hefyd fy helpu i sylweddoli bod fy ngwir ddyheadau gyrfa yn y sector ynni adnewyddadwy. Rydw i bellach yn gweithio i Ddarparwr Gwasanaeth Integredig yn cefnogi'r diwydiant gwynt ar y môr, ac yn fuan byddaf yn cwblhau astudiaethau ôl-raddedig ym maes Ynni Adnewyddadwy Morol.

Sam Strivens, Daeareg Fforio







Rwyf wedi bod yn ddigon lwcus i gael fy nghyflogi yn y sector morol ers i mi raddio. Ar hyn o bryd rwy'n Rheolwr Prosiect Menter Ymchwil Laamu Atoll Ymddiriedolaeth Manta. Nid oes unrhyw ffordd y buaswn i wedi gallu gwneud y gwaith anhygoel hwn pe na bai am y sylfaen mewn gwyddor môr a gefais yng Nghaerdydd. Byddwn yn argymhell y cwrs yma'n gryf i unrhyw un sydd hyd yn oed yn ystyried gyrfa yn y sector morol oherwydd ei gwmpas eang, sy'n caniatáu i unrhyw un archwilio bron pob swydd bosibl o dan yr haul.

**Beth Taylor, Daearyddiaeth Forol**



# Daearyddiaeth Forol

Côd UCAS: **F845** (BSc), **1D78** (MSci), **F848** (Blwyddyn dramor)



Gellir dadlau mai'r môr yw'r ffin fawr olaf ar y Ddaear ar gyfer archwilio a darganfod, ac mae daearyddwyr morol yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddatrys materion ffisegol, hydrograffeg a rheolaethol yn ymwneud â'r môr a'r arfordir.

Mae moroedd ac arfordiroedd y byd yn llawn cynefinoedd a bywyd gwych anhygoel ac maen nhw'n cynnal nifer o ddiwydiannau pwysig gan gynnwys morio, twristiaeth ac ynni adnewyddadwy. Hefyd, mae llywodraethau a busnesau ar draws y byd am fanteisio ar adnoddau morol newydd. Fel daearyddwr morol bydd gennych y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i gadw ein moroedd yn iach a sicrhau bod y twf yn y diwydiant a'r economi forol yn un cynaliadwy.

Ar unig radd Daearyddiaeth Forol y DU, byddwch yn archwilio'r wyddoniaeth y tu ôl i gadwraeth a chynaliadwyedd morol, a heriau cysylltiedig. Yn rhan o hyn, byddwch yn archwilio dylanwad newid yn yr hinsawdd, erydu morol a llifogydd cynyddol, yn ogystal â'r angen i addasu i ddyfodol arfordirol o'r fath.

Mae graddedigion yn gadael gyda'r sgiliau i ddatrys ystod o broblemau morol ac arfordirol go iawn a chymhleth, a hynny gyda phrofiad o waith maes ymarferol ac ymchwil gyfoes gyda gwyddonwyr blaenllaw a gweithwyr proffesiynol allanol.

Dewiswch rhwng ein gradd baglor tair blynedd, y fersiwn pedair blynedd o'n gradd baglor gan gynnwys blwyddyn ar leoliad, neu ein gradd meistr pedair blynedd.

Mae ein myfyrwyr yn y gorffennol wedi cwblhau lleoliad mewn ystod o bynciau gan gynnwys arolygu morol, mapio ecosystemau a rheoli amgylcheddau porthladdoedd.

Mae ein graddau meistr yn cynnwys pedwaredd flwyddyn o astudio lle byddwch yn gweithio ar brosiect ymchwil gyda phwnc cyffrous ym maes Daearyddiaeth Forol gydag academydd o'r ysgol a'i dîm ymchwil. Byddwch yn ennill y sgiliau ymchwil datblygedig sydd eu hangen mewn ymchwil academaidd neu mewn cwmni ymgynghori amgylchedd morol.

## Cyfleoedd gwaith maes

Mae gan dde Cymru amgylchedd morol cyfoethog ac amrywiol, sy'n cynnwys aberoedd ag amrediadau llanw mawr, ynysoedd lle mae bywyd gwyllt yn ffynnu, a thraethau heb eu hail ar hyd Penrhyn Gwŷr. Byddwch yn cael digon o gyfle i feithrin eich sgiliau o ran gwaith maes a gwaith cwch, gyda theithiau dydd rheolaidd a theithiau preswyl ar hyd Aber Afon Hafren

ac i safleoedd megis Arfordir Treftadaeth Morgannwg a Gwŷr, de Cymru.


Bydd yna hefyd gyfleoedd i fynd dramor; yn ddiweddar rydym wedi bod ym Malta, Jersey a Samos, Gwlad Groeg. Byddwch yn rhan o weithgareddau fel arolygu morol, monitro ansawdd dŵr, mapio ecolegol a phroffilio traethau. Mae cost yr holl deithiau maes gofynnol yn rhan o ffioedd eich cwrs.

## Gyrfaoedd a chyflogadwyedd

Mae cadw ein moroedd yn iach yn hanfodol i'n dyfodol. Mae angen sgiliau a gwybodaeth daearyddwyr morol i fynd i'r afael â heriau heddiw ac yfory i'r moroedd, nid yn unig i sicrhau bod cynefinoedd a bywyd gwyllt pwysig yn cael eu diogelu ond hefyd i sicrhau bod diwydiannau morol fel pysgota, twristiaeth, morio ac ynni adnewyddadwy yn cael eu datblygu'n gynaliadwy.

Gallwch ddewis gweithio mewn amrywiaeth o ddiwydiannau a rolau gwahanol gan gynnwys cadwraeth a rheoli morol, fel ymgynghorydd amgylcheddol neu ddadansoddwr geo-odol morol. Bydd gennych nifer o sgiliau y mae sectorau eraill fel yswiriant, cyllid, addysg a chynllunio'n edrych amdanynt.

Mae rhai o'n myfyrwyr yn y gorffennol bellach wedi gweithio yn y Swyddfa Hydrograffeg, Titan Environmental Services, Asiantaeth yr Amgylcheddol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Sefydliad Rheoli Morol yn ogystal â nifer o borthladdoedd a sefydliadau cadwraeth forol ledled y byd.



Peidiwch â chymryd ein gair ni amdano yn unig...

Yn ystod fy lleoliad ym Mharc Natural, fe wnes i archwilio sut roedd y parc morol yn cael ei ddefnyddio i ddiogelu Ynysoedd y Medes. Roeddwn yn rhan o ystod o brosiectau gan gynnwys monitro arfordirol, adfer twyni tywod a deifio ymchwil, a ganiataodd imi weld llawer o'r fioleg oedd gan yr ynysoedd i'w chynnig, gan gynnwys baracwadas, llyswennod noeth, tiwna amberjack a morgathod eryr.

Destiny Newman, Daearyddiaeth Forol





Darparodd y cwrs yr holl sylfeini angenrheidiol ar gyfer fy ngyrfa. Dwi ddim yn cyfeirio at yr wybodaeth dechnegol a ddatblygais o dan arweiniad darlithwyr o safon byd-eang yn unig, ond hefyd sgiliau pwysig fel ymchwil, ysgrifennu adroddiadau a dadansoddi. Roedd cyfleusterau'r brifysgol, ac yn benodol Ysgol Gwyddorau'r Ddaear a'r Amgylchedd yn wych, ac roedd Undeb y Myfyrwyr yn cynnig canolfan wych i gwrdd â ffrindiau newydd a dechrau ar fy ngyrfa.

**Michael Finch, graddio mewn Daeareg**



# Daeareg

Côd UCAS: **F603** (BSc), **F604** (MSci), **F607** (Blwyddyn dramor)



Mae daearegwyr yn astudio'r mwynau a'r creigiau sy'n ffurfio'r Ddaear solet, y prosesau sy'n digwydd ar ac o fewn ein planed, ac esblygiad bywyd ar ei harwyneb.

I ddod o hyd i atebion i rai o'r problemau mwyaf sy'n wynebu ein planed heddiw mae angen i ni ddeall hanes a phrosesau'r Ddaear. Sut gallwn ni ddefnyddio ein gwybodaeth am hinsoddau'r Ddaear yn y gorffennol i ddeall effeithiau newid yn yr hinsawdd heddiw? Sut gallwn ni ddefnyddio ein gwybodaeth am ddaeargrynfydd a llosgfynyddoedd i ragfynegi peryglon a sicrhau bod pobl ac adeiladau'n ddiogel yn y dyfodol? Dim ond blas o'r heriau y byddwn yn eu hystyried yw hyn.

Ar ein cwrs Daeareg, byddwch yn archwilio hanes rhyfeddol y Ddaear, ei systemau mewnol a'i deunyddiau drwy gymysgedd o ddarlithoedd ysbrydoledig, gwaith ymarferol, ymchwil ffiniol a theithiau maes yn y DU ac Ewrop. Byddwch yn darganfod sut y mae creigiau a mwynau'n cael eu ffurfio, sut y mae anifeiliaid yn esblygu dros amser daearegol, beth sy'n achosi daeargrynfydd a llosgfynyddoedd, a sut y mae gwyddor daeareg yn effeithio ar ein bywydau heddiw.

Nid oes angen eich bod wedi astudio daeareg eisoes gan y byddwch yn dechrau'r flwyddyn gyntaf gyda'r egwyddorion sylfaenol i sicrhau bod pawb ar yr un lefel.

Mae ein graddau wedi'u hachredu gan y Gymdeithas Ddaearegol, sef y corff proffesiynol ar gyfer y geowyddorau yn y DU. Rydym wedi gweithio gyda diwydiant i ddylunio ein gradd fel eich bod yn graddio gyda'r sgiliau arbenigol sydd eu hangen arnoch i fod yn daearegydd proffesiynol. Mae'r sgiliau hyn yn cynnwys gwaith maes, profiad o gasglu data trwy ddefnyddio meddalwedd Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS), dadansoddi data mewn modd beirniadol, a'r hyder i wneud penderfyniadau allweddol o wybodaeth gyfyngedig.



Gallwch ddewis rhwng y radd baglor tair blynedd, ein gradd baglor pedair blynedd gyda lleoliad proffesiynol a'r radd meistr pedair blynedd. Mae ein gradd meistr yn cynnwys pedwaredd flwyddyn ychwanegol o astudio lle byddwch yn gweithio ar brosiect ymchwil gydag academydd o'r Ysgol yn ei faes ymchwil. Byddwch yn ennill sgiliau datblygedig ac yn cael profiad o ysgrifennu gwyddonol a chyflwyno ar lefel broffesiynol.

## Cyfleoedd gwaith maes

Mae gan Dde Cymru hanes daearegol amrywiol ac mae digonedd o dirweddau naturiol eithriadol i ni eu crwydro ac i chi ddatblygu eich sgiliau gwaith maes. Manteisiwn i'r eithaf ar ein lleoliad gan ystyried sut mae daeareg yn effeithio ar dirweddau a diwydiant y rhanbarth lleol drwy dripiâu dydd rheolaidd a thripiâu preswyl hirach.

Bydd yna hefyd gyfleoedd i fynd ar daith fapio dramor; yn y gorffennol rydym wedi bod i Sbaen a Cyprus. Mae cost yr holl deithiau maes gofynnol yn rhan o ffioedd eich cwrs.

## Gyrfaoedd a chyflogadwydd

Gyda gradd daeareg gallwch ddewis gweithio mewn amrywiaeth o rolau gwahanol gan gynnwys daearegwr peirianeg, hydrogeolegydd, mwynolegydd neu

ymgyngorydd amgylcheddol. Bydd gennych hefyd sgiliau cyflogadwy hanfodol y mae sectorau fel yswiriant, cyllid, addysg a chynllunio yn chwilio amdanynt.

Mae ein myfyrwyr yn y gorffennol wedi mynd ymlaen i weithio i gyflogwyr pwysig fel yr Arolwg Ddaearegol Prydeinig, Asiantaeth yr Amgylchedd, Digirock, Boliden Mining, Network Rail, Balfour Beatty a'r cwmni ymgynghorol peirianeg a mwyngloddio Royal HaskoningDHV.

“Pediwch â chymryd ein gair ni amdano yn unig...”

**Mae'r wybodaeth a'r sgiliau a feithrinais yng Nghaerdydd wedi bod yn werthfawr iawn yn fy ngyrfa hyd yma, yn amrywio o fodelu cyfrifiadurol i effeithiau ymsuddiant llwytho gwaddodion mewn deltâu a haenau iâ Antarcig i ragfynegi peryglon naturiol. Ar yr ochr ymarferol, gwnaeth gwaith maes a'r profiad o gyflwyno mewn cynadleddau fy helpu i feithrin y sgiliau cyfathrebu, gweithio mewn tîm a chynllunio rwy'n eu defnyddio bob dydd bellach.**

Martin Wolstencroft, Daeareg





Dewisais astudio Daearyddiaeth Ffisegol ym Mhrifysgol Caerdydd oherwydd yr ystod eang o fodiwlau oedd ar gael. Fe wnaeth y rhain ganiatáu imi ganolbwyntio ar yr holl bethau oedd o ddiddordeb i mi. Rwyf wedi cael profiad gwych ar y cwrs hyd yma, wedi gwneud ffrindiau da ac wedi mwynhau'r darlithoedd a'r gwaith maes.

**Jack Vincent, myfyriwr presennol**



# Daearyddiaeth Ffisegol

Côd UCAS: **F843** (BSc), **F844** (MSci), **F849** (Blwyddyn dramor)



Mae daearyddwyr ffisegol yn archwilio esblygiad arwyneb y Ddaear a'r wyddoniaeth sydd y tu ôl i'w phrosesau ffisegol.

O newidiadau yn yr hinsawdd i beryglon naturiol i blatiau tectonig yn symud, mae ein planed wastad yn esblygu ac yn ei hail-lunio'i hun. Bydd y cwrs hwn yn astudio'r wyddoniaeth y tu ôl i broses ffisegol y Ddaear, gan gynnwys prosesau geomorffolegol a hydroleg, fel y gallwch ddeall yn well yr heriau sy'n ein hwynebu a helpu i wneud gwahaniaethau cadarnhaol at y dyfodol.

Ar ein cwrs Daearyddiaeth Ffisegol, byddwch yn dysgu sut mae tirweddau wedi esblygu, y prosesau cyfredol, effeithiau a dylanwadau ar ein planed, a sut y gallwn ragfynegi newidiadau yn y dyfodol. Byddwch yn datblygu sgiliau mewn mapio, ymchwil, dadansoddi a datrys problemau gan ddefnyddio offer maes a labordy o'r safon uchaf. Hefyd byddwch yn defnyddio rhaglenni meddalwedd proffesiynol o safon uchel i fodelu newidiadau tirlun yn y dyfodol.

Bydd graddedigion yn gadael gyda'r sgiliau i ddatrys ystod o broblemau bywyd go iawn cymhleth o ran yr amgylchedd ffisegol a gyda phrofiad o waith maes ymarferol ac ymchwil gyfoes â gwyddonwyr blaenllaw.

Dewiswch rhwng ein gradd baglor tair blynedd, y fersiwn pedair blynedd o'n gradd baglor gan gynnwys blwyddyn ar leoliad, neu ein gradd meistyr pedair blynedd.

Bydd gennych gyfle i gwblhau lleoliad gyda sefydliadau fel y Swyddfa Meteoroleg, cwmnïau ymgynghori peirianneg, ac asiantaethau llywodraethol fel Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae ein graddau meistyr yn cynnwys pedwaredd flwyddyn o astudio lle byddwch yn gweithio ar brosiect ymchwil gyda gwyddonydd blaenllaw o'r ysgol a'i staff ymchwil. Byddwch yn datblygu sgiliau uwch mewn mapio, ymchwilio, dadansoddi a datrys problemau.

## Cyfleoedd gwaith maes

Mae Cymru yn labordy naturiol i ddaearyddwyr. O'i mynyddoedd trawiadol yn y gogledd i aber llanwol bioamrywiol yn y de, mae gennym ystod enfawr o amgylcheddau a phrosesau ffisegol i'w harchwilio.

Rydym yn manteisio i'r eithaf ar ein lleoliad ac yn mynd ar deithiau dydd rheolaidd ar yr arfordir ac i Fannau Brycheiniog yn ne Cymru. Byddwch yn cwblhau cwrs maes preswyl i barc cenedlaethol yng Nghymru (naill ai Sir Benfro neu Eryri) lle byddwch yn dysgu sgiliau maes allweddol gan gynnwys technegau mapio ac arolygu. Bydd hefyd gyfleoedd i gwblhau triapiau tramor, i leoliadau fel y Swistir a Tenerife. Mae cost yr holl deithiau maes gofynnol yn rhan o ffioedd eich cwrs.

## Gyrfaoedd a chyflogadwyedd

Gyda'r blaned dan bwysau cynyddol o newid yn yr hinsawdd, mae poblogaethau pobl yn byw mewn lleoliadau sy'n gynyddol beryglus. Fel daearyddwr ffisegol gallwch ddefnyddio eich gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth o brosesau'r Ddaear i ddod o hyd i atebion cynaliadwy i heriau cymhleth cyfoes ac yn y dyfodol.

Gallwch ddewis gweithio mewn amrywiaeth o ddiwydiannau gwahanol a rolau llywodraeth, asiantaethau llywodraethol neu gwmnïau ymgynghori amgylcheddol, gan gynnwys gweithio fel arbenigwr amgylcheddol neu ddadansoddwr geofodol. Bydd gennych hefyd sgiliau y gellir eu rhoi ar waith mewn sectorau fel yswiriant, cyllid, addysg a chynllunio.

Mae rhai o gynfyfyrwyr yr ysgol wedi mynd i weithio yn Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, llywodraeth leol, cwmnïau ymgynghori amgylcheddol ac elusennau amgylcheddol.







Mae'r cwrs Gwyddor Cynaliadwyedd Amgylcheddol yn gwbl unigryw i Brifysgol Caerdydd ac yn chwa o awyr iach. O ystyried perthnasedd cynaliadwyedd dros y blynyddoedd diwethaf, mae hefyd yn gymwys ar gyfer swyddi yn y dyfodol. Mae'r cwrs hwn yn amlygu pwysigrwydd annibyniaeth a hunanastudio. Mae'n datblygu sgiliau a allai fod yn rhai blaengar ac ymarferol. Rwyf wedi mwynhau'r teithiau maes yr ydym wedi bod arnynt eleni ac yn edrych ymlaen at fynd dramor yn rhan o'r cwrs yn y blynyddoedd i ddod.

**Lily Paradine, myfyriwr presennol**



# Gwyddorau Cynaliadwyedd Amgylcheddol

## Côd UCAS: **F651** (BSc)

Mae cynaliadwyedd amgylcheddol yn un o heriau mwyaf a thargedau pwysicaf heddiw. Mae angen i ni weithredu ar frys er budd ein planed a datblygu strategaethau i weithio tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy.

Mae'r cwrs hwn, sydd â ffocws penodol, yn archwilio meysydd amgylcheddol amserol sy'n seiliedig ar Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDGs) Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy. Mae hyn yn sicrhau bod ein graddedigion yn datblygu sgiliau a gwybodaeth y mae galw mawr amdanynt mewn meysydd sylw mawr ar gyfer ymchwilwyr, llywodraethau a sefydliadau anllywodraethol.

Ar ein cwrs Gwyddorau Cynaliadwyedd Amgylcheddol, byddwch yn archwilio tri maes allweddol: dŵr glân, diraddiad tir a champau er budd yr hinsawdd. Rydym yn integreiddio gwaith maes, sgiliau a theori gan ddefnyddio dysgu seiliedig ar broblemau gyda sefyllfaoedd o'r byd go iawn i'ch helpu chi i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy y mae galw amdanynt.

Gan weithio ar draws sawl disgyblaeth, byddwch yn dysgu sut i ddadansoddi, trafod a dadlau problemau cynaliadwyedd amgylcheddol yn feirniadol a chynnig atebion ymarferol i broblemau byd-eang cymhleth.

Gallwch ddewis rhwng y radd baglor tair blynedd, ein gradd baglor pedair blynedd gyda lleoliad proffesiynol a'r radd meistyr pedair blynedd. Mae ein gradd meistyr yn cynnwys pedwaredd flwyddyn ychwanegol o astudio lle byddwch yn gweithio ar brosiect ymchwil fforio gydag academydd o'r ysgol yn ei faes ymchwil. Byddwch yn ennill sgiliau datblygedig ac yn cael profiad o ysgrifennu gwyddonol a chyflwyno ar lefel broffesiynol.

### Strwythur y cwrs

Gradd tair blynedd amser llawn yw hon. Mae'r rhaglen hon yn defnyddio Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig i ffurfio Heriau Mawr (cymdeithasol neu fyd-eang) fel ffocws ein haddysgu.

Blwyddyn 1: Mae 60 o gredydau yn y modiwl Her Fawr craidd ar ddŵr glân gan gynnwys prosiect annibynnol. Mae 20 o gredydau ychwanegol o fodiwlau craidd sy'n darparu gwybodaeth a sgiliau yn ymwneud â'r Her

Fawr. Mae 40 o gredydau dewisol ar gael o ddetholiad o fodiwlau arbenigol.

Blwyddyn 2: Mae 60 o gredydau ym modiwl craidd yr Her Fawr ar ddiraddiad tir a'i effeithiau, gan gynnwys prosiect annibynnol. Mae modiwl 20 credyd craidd ychwanegol. Mae 40 o gredydau dewisol ar gael o ddetholiad o fodiwlau arbenigol.

Blwyddyn 3: Mae 60 o gredydau ym modiwl craidd yr Her Fawr ar Gamau er budd yr Hinsawdd, sy'n cynnwys eich traethawd hir. Mae 20 o gredydau craidd ychwanegol a 40 o gredydau dewisol ar gael o ddetholiad o fodiwlau arbenigol.

### Cyfleoedd gwaith maes

O'i mynyddoedd trawiadol yn y gogledd i aber llanwol bioamrywiol yn y de, mae gennym ystod enfawr o amgylcheddau a phrosesau ffisegol i'w harchwilio yng Nghymru.

Rydym yn manteisio i'r eithaf ar ein lleoliad ac yn mynd ar deithiau dydd rheolaidd ar hyd yr arfordir ac i barciau cenedlaethol yng Nghymru, lle byddwch yn dysgu sgiliau maes allweddol. Bydd cyfleoedd hefyd i gwblhau teithiau tramor, mewn lleoliadau fel Sbaen, Gwlad Groeg a Thiwisia lle mae rheoli adnoddau dŵr, diraddiad tir a newid hinsawdd yn cyfuno i herio cynaliadwyedd amgylcheddol. Mae cost yr holl deithiau maes gofynnol yn rhan o ffioedd eich cwrs.

### Gyrfaoedd a chyflogadwyedd

Ymhlith y swyddi nodweddiadol ar gyfer graddedigion mae ymgynghori a rheoleiddio amgylcheddol a chynaliadwyedd, cadwraeth, ysgrifennu gwyddoniaeth, polisi llywodraeth genedlaethol, elusennau amgylcheddol, addysgu, cynllunio trafndiaeth, addysg amgylcheddol ac iechyd yr amgylchedd. Mae'r cwrs hwn hefyd yn darparu hyfforddiant rhagorol ar gyfer astudio ac ymchwil ôl-raddedig.

Gallai darpar gyflogwyr gynnwys llywodraeth leol a sefydliadau fel Asiantaeth yr Amgylchedd, BAM Construct UK, Airbus a Wales and West Utilities.





# Astudiaethau pellach

Ar ôl cwblhau eich gradd gyntaf, efallai yr hoffech chi arbenigo ar faes arbennig yng Ngwyddorau'r Ddaear drwy ddilyn un o'n cyrsiau meistr.





## Daeareg Amgylcheddol Gymhwysol

Bydd ein MSc mewn Daeareg Amgylcheddol Gymhwysol yn eich helpu i ddatblygu'r holl sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer y diwydiannau geo-amgylcheddol, geo-dechnegol, ymgynghori a rheoleiddio.

Rydym ni wedi bod yn ei gynnig ers 25 mlynedd ac mae ei boblogrwydd parhaus yn golygu ein bod wedi hyfforddi dros 700 o ddaearegwyr ôl-raddedig, sydd bellach yn gweithio mewn diwydiant ac yn asiantaethau'r llywodraeth yn y DU, Ewrop a thramor.

Mae'r rhaglen yn cynnwys prosiect traethawd hir cymhwysol unigol pum mis o hyd sydd fel arfer yn cynnwys elfennau o geotechnegau, halogiad tir ac asesu amgylcheddol. Mae hefyd yn cynnwys gwaith maes gorfodol i fanteisio i'r eithaf ar eich sgiliau trosglwyddadwy.

Mae'r rhaglen hon wedi'i hintegreiddio'n llawn â rhaglen ddarlithoedd datblygiad proffesiynol Grŵp De Cymru o Gymdeithas Ddaearegol Llundain.

Mae'r rhaglen wedi'i hachredu gan Gymdeithas Ddaearegol Llundain. Ar ôl cwblhau'r radd ôl-raddedig hon yn llwyddiannus gellir defnyddio'r credydau tuag at ennill cymhwyster proffesiynol Daearegydd Siartredig.

## Dŵr mewn Byd sy'n Newid

Mae ein MSc mewn Dŵr mewn Byd sy'n Newid yn tynnu ar wybodaeth ryngddisgyblaethol i ddarparu trosolwg eang o broblemau dŵr yng nghyd-destun y sefyllfa bresennol a'r rhagolygon i'r dyfodol o safbwynt newid yn yr hinsawdd. Fe gewch yr wybodaeth a'r sgiliau diweddaraf sy'n angenrheidiol i ddeall a datrys problemau dŵr heriol, o safbwynt gwybodus, ac mae modd eu cymhwyso i amrywiaeth o yrfaoedd. Mae'r cwrs hwn yn gyfle unigryw i raddedigion archwilio ystod eang o ddisgyblaethau, gan gynnwys hydroleg, gwyddor yr hinsawdd, ecoleg dŵr croyw, economeg, gwyddor cymdeithasol, a dadansoddi peryglon a risgiau.



## Peryglon Amgylcheddol

Mae ein MSc mewn Peryglon Amgylcheddol yn rhoi dealltwriaeth ddatblygedig o beryglon amgylcheddol ac arbenigedd technegol wrth asesu risgiau, gyda ffocws ar y dulliau sydd eu hangen i ddadansoddi peryglon y gorffennol a rhagweld peryglon y dyfodol.

Bydd y cwrs yn eich helpu i feithrin sgiliau hanfodol mewn modelu rhifiadol ac ystadegol, synhwyro o bell, gwaith maes a dadansoddi data. Bydd digon o gyfleoedd i gael profiad ymarferol drwy ddefnyddio cyfarpar blaenllaw i'r maes a'r labordy, ynghyd â meddalwedd broffesiynol. Byddwch yn defnyddio'r dulliau modelu diweddaraf gan ddefnyddio data synhwyro o bell o loerennau fel cytserau CubeSat a Sentinel, a ddefnyddir i ddelweddau arwyneb y Ddaear.

Peidiwch â chymryd ein gair ni amdano yn unig...

**Rhoddodd y sylw deuol i agweddau geo-dechnegol a geo-amgylcheddol o fewn y cwrs sylfaen wych i fi ar gyfer gyrfa mewn archwilio'r ddaear. Rwyf wedi gallu defnyddio cynnwys amrywiaeth o fodiwlau, ac rwy'n credu mai hynny roddodd y fantais i fi mewn cyfwelliad diweddar (llwyddiannus). Roedd natur ymarferol y cwrs a'r dysgu trwy brofiad yn golygu fy mod, wrth adael a chychwyn ar fy swydd 'go iawn' gyntaf, nid yn unig yn teimlo'n barod i gyflawni'r tasgau dan sylw, ond hefyd fel petai gennyf fi eisoes flwyddyn o brofiad o weithio yn y diwydiant."**

Rhian Lynes,  
Daeareg Amgylcheddol Gymhwysol



# Ymchwil sy'n bwysig

Mae Gwyddorau'r Ddaear a'r Môr yn ysgol a arweinir gan ymchwil sydd â thros 40 o wyddonwyr rhyngwladol blaenllaw a thua 50 o fyfyrwyr ôl-raddedig sy'n ymchwilio i amrywiaeth eang o bynciau ymchwil.





Mae ymchwil yn Ysgol Gwyddorau'r Ddaear a'r Amgylchedd lawn mor ddiddorol ag ehangder ei gwmpas. Mae ein hymchwilyr yn mynd i'r afael â chwestiynau sylfaenol yn ymwneud ag esblygiad ein planed. O ddyfnderoedd y Ddaear, drwy'r gramen, i mewn i'r cefnforoedd ac ar y tir, mae gan ein hymchwilyr ddiddordeb ym mhob agwedd ar ffurfiant ac esblygiad y Ddaear.

Mae ein hymchwil yn cynnig mantais ddeuol. Mae'n creu'r sylfaen ar gyfer datblygiadau sylweddol wrth fynd i'r afael â heriau byd-eang o bwys. Mae hefyd yn llywio'r ffordd yr ydym yn addysgu ein cyrsiau, fel y gallwn eich helpu fod yn arweinwyr gwyddonol ac yn arloeswyr.

Mae ein hymchwilyr wedi'u rhannu'n dair canolfan ymchwil: y Ganolfan Ddaear Gadarn ac Adnoddau Naturiol, y Ganolfan Geobioleg a Geocemeg, a'r Ganolfan dros Wydnwch a Newid Amgylcheddol; neu, yn fwy cryno, y canolfannau ymchwil Cadarn, Byw a Newid. Mae ein diddordebau ymchwil penodol yn cael eu rhannu'n sawl grŵp a allai fod o fewn un ganolfan neu sawl un. Yn y modd hwn rydym yn sicrhau y gall partneriaethau newydd a chyffrous ffynnu rhwng gwyddonwyr sydd â diddordebau gwahanol.

Mae ehangder ein hymchwil yn cael ei adlewyrchu yn yr amrywiaeth o fodiwlau a addysgir sy'n cael eu cynnig i'n myfyrwyr israddedig, a all gymryd rhan drwy ddosbarthiadau ymarferol ac arolygon rhithwir gan ddefnyddio delweddau lloeren, yn ogystal â thrwy eu prosiectau ymchwil eu hunain yn y labordy ac yn y maes.

### Canolfan Ddaear Gadarn ac Adnoddau Naturiol (Cadarn)

Drwy gyfuniad o ddata maes a seismig 3D, ymchwiliadau labordy a modelu rhifiadol, mae'r ganolfan ymchwil Solid yn ymchwilio i gyfansoddiad ac esblygiad deinamig mantell a chramen y Ddaear, gan gynnwys ffurfio dyddodion mwynau a hydrocarbon, prosesau magmatig a hydrothermol, geodynameg, deinameg y Ddaear solet, tectoneg platiau a datblygiad basnau gwaddodol. Mae ein gwaith ymchwil i ddyddodion mwynau yn canolbwyntio ar ddyddodion mwyn magmatig o elfennau grŵp platinwm, nicel, copr a chromiwm, yn enwedig yn ne Affrica a Chanada; elfennau angenrheidiol i economi werdd y dyfodol. Mae ymchwil i lithosffer y cefnfor yn canolbwyntio ar gribau sy'n lluedaenu, namau sy'n trawsnewid, prosesau

yn siambrau magma crib canol y cefnfor ac analogau hynafol o fewn ophiolitau, yn bennaf yng Nghyprus ac Oman. Mae aelodau o'r ganolfan ymchwil hon yn gweithio'n agos gyda nifer o gwmnïau adnoddau mwynau ac ynni.

Mae pynciau ymchwil canolog y ganolfan Solet yn cynnwys: llysgfynyddoleg, mecanweithiau gwall, prosesau lithosffer cefnforoedd, geodynameg dan yr wyneb a'r fantell a phrosesau ffurfio dyddodion mwynol. Mae aelodau o'r ganolfan hefyd yn gweithio o fewn grŵp cyfandir Affrica, menter amlddisgyblaethol sy'n hybu ymchwil ac addysg yn y geowyddorau.

### Canolfan Geobioleg a Geocemeg (Byw)

Esblygodd bywyd ar y Ddaear rhyw 3.5 biliwn o flynyddoedd yn ôl, ac mae wedi cael dylanwad sylweddol ar amodau amgylcheddol, sy'n parhau heddiw. Mae creigiau'n cynnwys archif unigryw o ecosystemau'r gorffennol yn eu ffosilau, rydym yn eu hastudio i gofnodi hanes cyfoethog bywyd ar y Ddaear a'i effaith ar yr amgylchedd. Mae'r ganolfan ymchwil Byw yn astudio prosesau biogeocemegol heddiw a chasgliadau ffosil eu rolau yn y gorffennol. Mae bywyd ar y Ddaear wedi esblygu ar y cyd â'r blaned, a heb fywyd byddai ein hamgylchedd yn wahanol iawn - er enghraifft, dim llawer o ocsigen, llawer o CO<sub>2</sub>, tymheredd uchel, cefnforoedd llawer llai a dim olew na nwy. Mae microbau yn gyrru llawer o'r cylchoedd biogeocemegol sy'n gyfrifol am hyn ac rydym yn ymchwilio i gyfraddau, rheolaethau, adborth a'r organebau sy'n gysylltiedig. Mae'r ganolfan hefyd yn olrhain

prosesau system Ddaear tymheredd isel ac uchel yn defnyddio dulliau geocemegol, gan gynnwys sbectrometreg màs.

Mae pynciau ymchwil allweddol y ganolfan Byw yn cynnwys: geocemeg isotopau, geomicrobioleg, biogeocemeg microbaidd, hinsoddau oer, ecosystemau mewn amser dwfn, planhigion a deinameg amgylcheddol a thacsonomeg, stratigraffeg, ac esblygiad microfossilau morol.

### Canolfan Gwydnwch a Newid Amgylcheddol (Newid)

Mae'r ganolfan ymchwil Newid yn ymchwilio i achosion a chanlyniadau newidiadau yn system y Ddaear, yn y môr, yr atmosffer ac ar y tir, o'r gorffennol daearegol i'r presennol a'r dyfodol gan ddefnyddio cyfuniad o ymchwil maes, arbrofi mewn labordy a modelu rhifiadol. Mae'r pwyslais ar ddeall y prosesau naturiol sy'n achosi newidiadau ar ein planed ac, mewn rhai achosion, sut mae gweithgarwch dynol yn effeithio ar y prosesau hynny a sut maen nhw'n effeithio arnom ni - er enghraifft, tirlithriadau, erydiad arfordirol a newid yn yr hinsawdd. Mae prosiectau ymchwil ar y gweill ar hyd a lled y blaned, o'r moroedd o amgylch Antarctica i fynyddoedd coediog ar y cyhydedd.

Mae'r pynciau ymchwil sy'n ganolog i'r ganolfan Newid yn cynnwys: Prosesau arwyneb y Ddaear, hinsoddau oer, microfossilau morol, prosesau aeolaidd a phalaeohinsawdd a systemau hinsawdd. Mae aelodau'r ganolfan hon hefyd yn gweithio o fewn grŵp cyfandir Affrica, gan gynnwys hydroleg a hydrodaeareg.





# Cyflogadwyedd a gyrfaoedd



Mae galw mawr am raddedigion o bob un o'n rhaglenni gradd gan gyflogwyr. Dangosir hyn flwyddyn ar ôl blwyddyn yn y canlyniadau rhagorol a gawn ynghylch cyflogadwyedd mewn arolygon sy'n cynnwys ein graddedigion diweddar.


Yn y sector, mae ein graddedigion yn cael eu gwerthfawrogi am eu hyfforddiant yn y maes a'u prosiectau ymchwil unigol sy'n eu paratoi at heriau bob dydd gweithio fel geowyddonwyr, syrfewyr, ymgynghorwyr a gwyddonwyr amgylcheddol i sefydliadau'r llywodraeth a diwydiant yn y DU a thramor.

Mae rhai o'n graddedigion yn dewis peidio â mynd i gweithio yn y sector. Yn hytrach, maent yn dewis gweithio mewn meysydd anwyddonol fel cyllid, addysg, cyfathrebu a gweinyddiaeth. Mae nifer yn cael eu gwerthfawrogi'n benodol am yr ystod o sgiliau trosglwyddadwy y maent wedi'u datblygu yn ystod eu hamser gyda ni,

gan eu gwneud yn weithwyr delfrydol mewn ystod eang o feysydd.

Mae eraill yn mynd ymlaen i wneud rhagor o waith ymchwil ac astudio ar ôl eu gradd, ar ôl datblygu diddordeb brwd mewn maes penodol o wyddorau'r Ddaear neu ddaeryddol yn ystod eu graddau.

Mae ein hopsiynau ar gyfer astudiaeth bellach yn cynnwys Daeareg Amgylcheddol Gymhwysol (MSc), Peryglon Amgylcheddol (MSc) a Dŵr mewn Byd sy'n Newid (MSc). Rydym hefyd yn cynnig opsiynau ar gyfer graddau doethurol (PhD).





**Gall ein graddau agor drysau i ystod eang o yrfaoedd cyffrous a gwerth chweil. Darllenwch straeon gan ein cynfyfyrwyr, yn disgrifio eu gyrfaedd ers gadael Ysgol Gwyddorau'r Ddaear a'r Amgylchedd.**

### James Farmer

Daeareg Archwilio  
(BSc, 2017)

Mae dinas Caerdydd yn lle eithriadol i fod yn fyfyrwr. O ystyried bod y brifysgol y drws nesaf i ganol y ddinas, a'r holl gyfleusterau y byddech yn eu disgwyl mewn prifddinas, does dim llawer o lefydd cystal. Ar ôl graddio, ymunais â chwmni peirianeg geodechnegol lle cefais brofiad gwerthfawr yn gweithio ar amrywiaeth o brosiectau ledled y DU ac yn datblygu fy nealltwriaeth o ddaareg peirianeg. Ar ôl ychydig o aeafau, penderfynais ddilyn fy angerdd mewn gweithio yn y diwydiant mwyngloddio a symud i Orllewin Awstralia. Yn fuan ar ôl cyrraedd yno, llwyddais i gael swydd fel daearegwr yn y sector mwyn haearn. Erbyn hyn, rwyf yn gweithio yn yr adran datblygu adnoddau yn Rio Tinto. Ein prif amcan yw cynorthwyo i gasglu a dehongli'r data sydd ei angen i greu modelau adnoddau yn hyderus. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer cael gwybodaeth am gorff y mwynau. Fe wnaeth astudio yng Nghaerdydd fy helpu i ennill yr hanfodion sydd eu hangen arnaf i weithio yn y diwydiannau amrywiol hyn ledled y byd.



### Caitlin Gilmour

Daearyddiaeth Forol gyda Blwyddyn  
mewn Diwydiant (BSc, 2017)

Mae gan Gaerdydd nid yn unig brifysgol wych, ond mae'r ddinas ei hun a'r ardal gyfagos yn anhygoel. P'un a ydych yn ffafrio diwylliant a noson allan neu'r awyr agored, mae gan Gaerdydd rywbeth i bawb. Gosododd fy ngradd israddedig y sylfeini ar gyfer y swydd sydd gennyf ar hyn o bryd fel ymgynghorydd pysgodfeydd a dyframaeth. Lleolir y swydd yn y DU, ond mae ein gwaith fel arfer yn canolbwyntio ar Affrica a de Asia. Roeddwn yn hoff iawn o'r dewis amrywiol o fodiwlau, y cyfleoedd i wneud gwaith maes a'r darlithwyr a wnaeth y profiad yn un mor gofiadwy. Fe wnaeth y flwyddyn yn y diwydiant fy nenu'n fawr a bodloni fy nisgwiliadau. Treuliais flwyddyn yn y Maldives yn gwella fy sgiliau ymchwil i ecoleg forol, sgiliau plymio gwyddonol a sgiliau allgymorth cymunedol. Mae llawer o'r sgiliau hynny wedi bod yn amhrisiadwy ar gyfer fy swydd bresennol.



### Matthew Williams

Daearyddiaeth Amgylcheddol  
(MSci, 2020)

Mae gan Gaerdydd fywyd nos sy'n ffynnu, cannoedd o siopau, parciau hardd a digonedd o gyfleusterau. Mae ei leoliad daearyddol ar aber Afon Hafren yn ei wneud yn lleoliad astudio delfrydol i bobl sy'n hoff o ddaearyddiaeth gan ei fod ger Bannau Brycheiniog, Gŵyr, ac amgylchedd aberol hynod gymhleth. Ar ôl graddio, cefais fy mhenodi'n ddadansoddwr perygl llifogydd i gwmni peirianeg ac amgylcheddol ymgynghorol. Mae'r rhan fwyaf o'm gwaith yn ymwneud â rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Mae hyn yn cynnwys archwilio llifogydd, ceisiadau achos busnes a strategol, casglu data, gwaith GIS, ysgrifennu adroddiadau, ymgynghori â'r cyhoedd, arolygon amgylcheddol a mwy. Ategir fy ngwaith presennol gan y cyfoeth o wybodaeth a gefais wrth astudio yng Nghaerdydd. Y peth wnes i ei werthfawrogi fwyaf wrth astudio yno oedd y gwerthfawrogiad fy mod yn cael fy addysgu gan arbenigwyr yn y maes oedd ag angerdd am eu pwnc. Roedd gofal ac ystyriaeth y darlithydd am fyfyrwyr, eu parodrwydd i neilltuo amser gwerthfawr i helpu, a bod yn agored i drafod anawsterau dysgu, yn gwneud astudio yng Nghaerdydd yn brofiad mor braf.



### Emily Reynolds

Geowyddoniaeth Amgylcheddol  
(BSc, 2018) a Daeareg Amgylcheddol  
Gymhwysol (MSc, 2020)

Rhoddodd fy ngraddau israddedig ac ôl-raddedig sgiliau hanfodol i mi i ddilyn gyrfa ym maes ymgynghori amgylcheddol. Fy hoff agwedd ar fy ngradd israddedig oedd y modiwlau amrywiol a oedd ar gael, gan ei fod yn caniatáu i mi ddysgu am ystod eang o bynciau sy'n ganolog i'r gyrfa rwyf wedi'i dewis, ond roedd hefyd yn cadw fy niddordeb mewn meysydd gwyddor y ddaear nad wyf o reidrwydd yn canolbwyntio arnynt yn fy rôl bresennol. Rhoddodd fy addysg ym Mhrifysgol Caerdydd yr hyder a'r sgiliau i mi gael fy swydd bresennol gyda Mott MacDonald. Rwyf yn Ymgynghorydd Amgylcheddol Graddedig sy'n golygu fy mod yn gweithio ar ystod o brosiectau gan gynnwys cynlluniau ffyrdd, rheilffyrdd ac ynni ar raddfa fawr, rhoi mewnbyn i asesiadau risg geoamgylcheddol, adrodd ar Asesiadau Effaith Amgylcheddol (AEA) a rhoi caniatâd amgylcheddol. Mae gweithio i ymgynghoriaeth amlddisgyblaethol fawr yn rhoi cyfleoedd i weithio ar ystod o brosiectau.





# Prifddinas



Dinas fach yw Caerdydd, gyda chymeriad enfawr. Mae prifddinas y wlad, sy'n swatio rhwng arfordir garw a golygfeydd mynyddig godidog Cymru, yn llawn diwylliant sy'n cyblethu trysorau hanesyddol ag amwynderau cosmopolitan.

Mae'n cynnig amrywiaeth ddi-ben-draw o weithgareddau a gallwch ddysgu am hanes cyfoethog Caerdydd yng Nghastell Caerdydd ar ôl cerdded drwy ei strydoedd coblog. Yna, gallwch ymgolli yn yr awyrgylch wrth i'r torfeydd lifo o Stadiwm Principality ar ôl un o blith y digwyddiadau chwaraeon a gynhelir yno drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r sîn fwyd gyfoethog ac annibynnol wrth wraidd y ddinas. Gyda rhywbeth at ddant

pawb, gallwch fwynhau bwydydd rhagorol, danteithion a wnaed o blanhigyn a mathau egsotig o fwyd o bron pob un o bedwar ban byd, heb anghofio'r pice ar y maen i bwdin!

Gwlad y gân yw Cymru, ac yn sicr mae Caerdydd yn cyfrannu'n helaeth at yr etifeddiaeth hon. Mae cerddoriaeth yng nghalon y ddinas hon, o'r siop recordiau hynaf yn y byd, sef Spillers Records, sy'n gorwedd ynghudd yn Arcêd Morgan, i leoliadau mwy cyfoes a chartrefol sy'n rhoi llwyfan i rai o dalentau cerddorol newydd mwyaf cyffrous y byd.

Mae'n ddigon posibl mynd dros ben llestri'n trefnu pethau i'w gwneud yng Nghaerdydd, ond cofiwch neilltuo amser i

fynd i'r Amgueddfa Genedlaethol, sy'n rhywle rhyfeddol. Peidiwch â cholli'r cyfle hefyd i fynd i Ganolfan Mileniwm Cymru ym Mae Caerdydd.

Mae Caerdydd, â'i phersonoliaeth fyrlymus, yn ddinas ddelfrydol i fyfyrwyr, gan gynnig dewis diddiwedd o gyfleoedd adloniant ac yn parhau'n rhad ac yn hawdd mynd o'i chwmpas.

Mae'r canolfannau siopa modern, yr arcedau hyfryd, y parciau gwyrdd iraidd a'r bywyd nos brysur yn atyniadau mawr i'r rhai sy'n ystyried dod i fyw yng Nghaerdydd, er y byddwch bob amser yn dod o hyd i'ch ffordd yn ôl i Undeb y Myfyrwyr, sef gwir gartref sîn y myfyrwyr yn y ddinas.

“Mae Prifysgol Caerdydd yn brifysgol boblogaidd iawn yn y DU. . . Mae ganddi enw da am ymchwil o'r radd flaenaf ac mae'n rhoi profiad ardderchog i'w myfyrwyr.”

The Telegraph University Guide



# Prifysgol flaenllaw

Rhan o  
**RUSSELL  
GROUP**



“Mae Prifysgol Caerdydd yn uchel ei pharch ar raddfa leol a byd-eang.”

The Telegraph

Mae ein myfyrwyr yn dysgu gan arbenigwyr blaenllaw mewn dros 300 o gyrsiau ar draws y Brifysgol. Fel unig sefydliad Grŵp Russell yng Nghymru, rydym wedi ennill enw da yn rhyngwladol am ragoriaeth mewn addysgu ac ymchwil, ar sail ein hanes o gyflawni er 1883.

Mae oddeutu 5,500 o fyfyrwyr israddedig newydd yn ymgartrefu ym Mhrifysgol Caerdydd bob blwyddyn. Er bod cryn gystadlu am leoedd, rydym yn ymfalchïo mewn bod yn brifysgol gynhwysol, ac y croesawu ceisiadau gan bawb sy'n dymuno astudio gyda ni.

Prifysgol fyd-eang ydym ni, gyda mwy na 7,500 o fyfyrwyr rhyngwladol o fwy na 100 o wledydd. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bawb, beth bynnag eu cefndir.

## Cyfleusterau a datblygu

Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i fuddsoddi yn ein gwasanaethau, ac mae gennym labordai, darlithfeydd, llyfrgelloedd a chyfleusterau cyfrifiadura newydd sy'n llawn cyfarpar, i enwi rhai yn unig, gyda

datblygiadau mwy cyffrous yn mynd rhagddynt yn barhaus.

Mae ein cyfrifoldebau o ran yr amgylchedd a diogelwch yn bwysig iawn i ni, ac rydym yn hyrwyddo ein Polisi Ynni, Dŵr a Gwastraff cynhwysfawr. Mae'r polisi eisoes yn gwneud arbedion gwych o ran y defnydd o ynni ac yn ein helpu ni i wneud ein rhan i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

## Cyfleoedd Byd-eang

Mae gennym bartneriaethau â mwy na 200 o sefydliadau blaenllaw ar draws y byd, a bydd ein tîm Cyfleoedd Byd-eang yn eich helpu chi i gael profiad rhyngwladol gwerthfawr drwy astudio, gweithio neu wirfoddoli.

## Eich cefnogi chi

Mae ein canolfannau cefnogi a lles myfyrwyr yn cynnig amrywiaeth sylweddol o wasanaethau sydd ar gael i bob myfyriwr. Mae'r gwasanaethau hyn yn rhad ac am ddim, yn ddiduedd, yn anfeiniadol ac yn gyfrinachol, a'u nod yw eich helpu chi i fanteisio i'r eithaf ar eich bywyd fel myfyriwr a'ch cefnogi chi wrth i chi astudio.

Rydym hefyd yn cael ein hystyried yn un o'r prifysgolion gorau o ran cefnogi myfyrwyr LHDT+ ac rydym yn falch o fod ymhlith y gorau ym Mynegai Cydraddoldeb Gweithleoedd Stonewall.

## Taith rithwir o amgylch y campws

Dysgwch fwy am y Brifysgol ac am ddinas Caerdydd drwy fynd ar ein taith ryngweithiol ar-lein yma:

[virtualtour.cardiff.ac.uk/cy](http://virtualtour.cardiff.ac.uk/cy)



# Byw yng Nghaerdydd



“Mae gan Gaerdydd undeb myfyrwyr sydd ymysg y gorau yn y DU o ran maint, safon a gweithgarwch. Mae'r cyfleusterau gwych yn cynnwys Y Plas, clwb nos sydd â lle i 2,150 o bobl, a'r Neuadd Fawr, sy'n lleoliad o bwys ar gyfer cyngherddau.”

Complete University Guide, 2020

Caerdydd yw'r lle delfrydol i fod yn fyfyrwr. Mae'n adlewyrchu'r bwrllwm o weithgarwch a gynigir gan ddinas fawr, ond mewn lleoliad personol a chlos sydd â chymeriad diddiwedd. Gallwch fwynhau'r awyrgylch, profi'r diwylliant a mynd ati i gymryd rhan yn y llu o weithgareddau sydd ar gael yn ein dinas; eich cartref newydd chi.

## Gwarant o lety

Os byddwch yn derbyn cynnig lle gan Brifysgol Caerdydd ar sail bendant, cewch warant o ystafell sengl yn un o breswylfeydd y Brifysgol yn eich blwyddyn gyntaf, a byddwch yn byw gyda myfyrwyr israddedig eraill yn eu blwyddyn gyntaf.

Caiff dyddiadau preswyl eich llety penodol eu cadarnhau yn eich Cynnig Llety.

## Bywyd Preswyl

Byddwch yn gallu defnyddio'r gwasanaeth anhygoel a gynigir gan y Tîm Bywyd Preswyl wrth aros yn llety myfyrwyr Caerdydd. Mae'r tîm yn gweithio'n ddiflino i wella eich profiad fel myfyrwr.

Drwy weithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Cefnogi a Lles Myfyrwyr, y Swyddfa Preswylfeydd ac Undeb y Myfyrwyr, bydd Bywyd Preswyl yn eich croesawu chi i Gaerdydd ac yn eich helpu i ymgartrefu'n ddifffwdan yn y Brifysgol.

Maent hefyd yn helpu i feithrin ymdeimlad cryf o gymuned drwy ddigwyddiadau cymdeithasol a gweithgareddau diwylliannol, yn ogystal â chefnogaeth ymarferol.

## Undeb y Myfyrwyr

Mae Undeb y Myfyrwyr yn rhan greiddiol o brofiad myfyrwyr yng Nghaerdydd. Dyma ran annibynnol o'r Brifysgol a arweinir gan y myfyrwyr, sy'n benodol ar gyfer sicrhau eich bod yn cael yr amser gorau posibl gyda ni.

Mae Undeb y Myfyrwyr, a adeiladwyd ar sail cynhwysiant, amrywiaeth, datblygiad personol a chyfeillgarwch, yn cynnal ystod o weithgareddau a gwasanaethau i helpu i wella eich profiad ym Mhrifysgol Caerdydd.

Mae'r rhain yn cynnwys cyngor, hyfforddiant, datblygu sgiliau, adloniant, cyfleoedd i wirfoddoli a chyflogaeth yn ystod eich amser yng Nghaerdydd yn ogystal â'ch paratoi chi at yrra ar ôl y Brifysgol.

## Rhagor o wybodaeth . . .

### Llety

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan: [www.cardiff.ac.uk/cy/study/accommodation](http://www.cardiff.ac.uk/cy/study/accommodation)

Gallwch hefyd wyllo ein ffilm preswylfeydd ar-lein ar: [www.youtube.com/watch?v=hxzX-dYLF88](http://www.youtube.com/watch?v=hxzX-dYLF88)

### Undeb y Myfyrwyr

[facebook.com/undebmyfyrwyr/](https://www.facebook.com/undebmyfyrwyr/)

[snapchat.com/add/cardiffstudents](https://www.snapchat.com/add/cardiffstudents)

[instagram.com/cardiffstudents](https://www.instagram.com/cardiffstudents)

[@undebmyfyrwyr](https://twitter.com/undebmyfyrwyr)

[www.youtube.com/cardiffstudents](http://www.youtube.com/cardiffstudents)



# Ceisiadau

Er mwyn i ni ystyried eich derbyn i un o'n rhaglenni gradd, dylech ddefnyddio cyfleuster 'UCAS Apply' i gyflwyno cais ar-lein ar wefan UCAS. I wneud hynny, bydd angen i chi fewngofnodi i [www.ucas.ac.uk/apply](http://www.ucas.ac.uk/apply).

Ar y wefan honno fe gewch chi wybodaeth am sut i wneud cais ac esboniad o drefn UCAS.

## Meini prawf derbyn

I weld y gofynion manwl ynghylch mynediad a'r cynigion nodweddiadol diweddaraf ewch i: [www.caerdydd.ac.uk/ugcourses](http://www.caerdydd.ac.uk/ugcourses)

Rhaid i ymgeiswyr Gwyddor Cynaliadwyedd Amgylcheddol fod â naill ai daearyddiaeth neu wyddor amgylcheddol. Rhaid i ymgeiswyr ar gyfer pob rhaglen arall fod ag o leiaf 1 pwnc STEM (Cemeg, Ffiseg, Mathemateg, Daeareg, Bioleg, Daearyddiaeth, Gwyddorau Cyfrifiadurol, TGCh a Gwyddorau Amgylcheddol) yn eu cymwysterau lefel mynediad uchaf.

## Dyma ein cynigion nodweddiadol:

**Safon Uwch:** ABB os yn cymryd un gwyddoniaeth a BBB os gyda dwy wyddoniaeth (o'r pynciau STEM a restrir uchod)

## Bagloriaeth Ryngwladol:

**Gwyddor Cynaliadwyedd Amgylcheddol:** 31-32 pwynt; neu 6,5,5 pwynt o dri phwnc lefel uwch, gan gynnwys lleiafswm o 6 phwynt o ddaearyddiaeth lefel uwch neu wyddor amgylcheddol. **Pob rhaglen radd arall:**

Os ydych yn gwneud dwy Wyddor ar y Lefel Uwch: 31 pwynt; neu 6,5,5 pwynt mewn tri phwnc lefel uwch. Os ydych yn gwneud un Wyddor ar y Lefel Uwch: 32 pwynt; neu 6,5,5 mewn tri phwnc lefel uwch.

**CBC:** Derbynnir craidd CBC yn lle un pwnc Safon Uwch ac eithrio'r pynciau gwyddonol neu ddaearyddiaeth Safon Uwch sy'n ofynnol.

Bydd yr Ysgol yn ystyried cyfuniadau o gymwysterau sy'n cynnwys pynciau Safon Uwch galwedigaethol ac academaidd.

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi, datblygu a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein holl arferion a gweithgareddau.

Ein nod yw sefydlu diwylliant cynhwysol sy'n rhydd o wahaniaethu ac sy'n seiliedig ar werthoedd urddas, cwrteisi a pharch. Rydym yn cydnabod hawl pob person i gael ei drin yn unol â'r gwerthoedd hyn.



Rydym wedi ymrwymo i wella cydraddoldeb ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred (gan gynnwys diffyg cred), rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Rydym hefyd am feithrin perthynas dda â grwpiau gwahanol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: [www.cardiff.ac.uk/public-information/equality-and-diversity](http://www.cardiff.ac.uk/public-information/equality-and-diversity)

## Gohirio mynediad

Nid oes gan yr Ysgol wrthwynebiad i'r posibilrwydd i chi ohirio eich mynediad cyhyd â'ch bod yn treulio'r flwyddyn berthnasol mewn ffordd gadarnhaol a buddiol. Byddwch chi'n gwneud eich cais drwy UCAS yn y ffordd arferol, ond rhaid i'r cais i UCAS ddangos y flwyddyn y bwriadwch ddod i'r brifysgol.

## Diwrnodau Agored

Mae'r Brifysgol yn cynnal Diwrnodau Agored drwy gydol y flwyddyn i roi cyfle i unrhyw un sy'n ystyried cyflwyno cais i Brifysgol Caerdydd gael rhagor o wybodaeth am fywyd yn y brifysgol a gweld yr hyn rydym yn ei gynnig.

Os ydych yn cyflwyno cais ac yn cael cynnig lle, cewch eich gwahodd i gwrdd â ni yn niwrnodau agored arbennig yr Ysgol. Rydym yn eich annog yn gryf i ymuno â ni wrth wneud y penderfyniad pwysig hwnnw. Cewch y cyfle i glywed mwy am ein graddau, cyfarfod â staff yn ogystal â chael cyfle i siarad â myfyrwyr presennol a chael blas ar ein prifddinas gosmopolitan.

## Cefnogaeth i fyfyrwyr

P'un a ydych yn defnyddio'r gwasanaethau cefnogi myfyrwyr neu beidio, mae'n galonogol gwybod eu bod ar gael pe bai eu hangen arnoch. Dyrennir tiwtor personol i bob myfyriwr, ond mae gennym amrywiaeth o wasanaethau os bydd angen cymorth ychwanegol arnoch. Megis:

- Cymorth Anabledd a Dyslecsia
- Canllawiau Cwnsela a Lles

Ebost: [studentsupportcentre@caerdydd.ac.uk](mailto:studentsupportcentre@caerdydd.ac.uk)

Ffôn: (029) 2087 4844

## Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol

Ebost: [iss@caerdydd.ac.uk](mailto:iss@caerdydd.ac.uk)

Ffôn: +44 (0)29 2087 6009

## Cynllun Mentor Myfyrwyr

[www.cardiff.ac.uk/cy/study/student-life/student-support](http://www.cardiff.ac.uk/cy/study/student-life/student-support)

## Ffioedd dysgu a chymorth ariannol


Mae'r Brifysgol yn codi ffi flynyddol sy'n talu am yr holl ffioedd dysgu, cofrestru ac arholi heblaw ffi ailsefyll arholiadau gan fyfyrwyr nad ydynt wedi'u cofrestru ar hyn o bryd. Sylwch fod y ffioedd am lety ym Mhreswylfeydd y Brifysgol yn ychwanegol at hynny.

Gweler y wefan ganlynnol i gael rhagor o wybodaeth: [www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/tuition-fees](http://www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/tuition-fees)

## Ysgoloriaethau a bwrsariaethau

Ewch i'r wefan ganlynnol i gael rhagor o wybodaeth: [www.caerdydd.ac.uk/ysgoloriaethau](http://www.caerdydd.ac.uk/ysgoloriaethau)





## Gwybodaeth Gyfreithiol Bwysig

Mae cynnwys y llyfryn hwn yn ymwneud â chylch derbyn myfyrwyr ar gyfer dechrau astudio yn 2023, ac mae'n gywir pan aeth i'r wasg ym mis Mehefin 2022. Fodd bynnag, mae cyfnod hir rhwng argraffu'r llyfryn hwn a phryd caiff ceisiadau eu cyflwyno a'u prosesu gennym. Felly, ewch i'n gwefan [www.caerdydd.ac.uk](http://www.caerdydd.ac.uk) cyn cyflwyno cais rhag ofn bod unrhyw newidiadau i'r cwrw sydd o ddiddordeb i chi neu i gyfleusterau a gwasanaethau eraill a ddisgrifir yma. Pan fydd gwahaniaeth rhwng cynnwys y llawlyfr hwn a'n gwefan, cynnwys y wefan fydd yn bwysicach, a hwn sy'n nodi sut rydym yn bwriadu darparu ein gwasanaethau ar eich cyfer. Eich gradd: Mae myfyrwyr sy'n cael eu derbyn i Brifysgol Caerdydd yn astudio am radd Prifysgol Caerdydd.

Mae'r llyfryn hwn wedi'i argraffu ar bapur o ffynonellau cynaliadwy, gan ddefnyddio inc o lysiau. Mae'r papur a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r prospectws a'r broses weithgynhyrchu wedi'u hardystio gan yr FSC®. Mae'r argraffwyr wedi'u hachredu hefyd hyd at safon ISO14001, y safon amgylcheddol a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Pan fyddwch wedi gorffen gyda'r llyfryn hwn, gellir ei ailgylchu, ond a wnewch chi ystyried ei roi i ffrind neu ei adael yn eich llyfrgell gyrfaoedd i eraill ei ddefnyddio. Diolch.

Mae Prifysgol Caerdydd yn elusen gofrestredig, rhif 1136855

## Sut i ddod o hyd i'r Ysgol

Mae Ysgol Gwyddorau'r Ddaear a'r Amgylchedd yn y Prif Adeilad sydd yng nghanol Campws Parc Cathays, taith gerdded fer o ganol y ddinas. Mae'r Prif Adeilad yn agos at orsaf drenau Cathays ac o fewn cyrraedd hawdd i lawer o neuaddau preswyl y Brifysgol.

## Allwedd



Ysgol Gwyddorau'r Ddaear a'r Amgylchedd



Adeiladau'r Brifysgol a'r GIG



Preswylfeydd myfyrwyr

Gellir trefnu i'r prospectws hwn fod ar gael mewn fformatau gwahanol, gan gynnwys print mawr (testun), mewn Braille neu ar dâp sain/CD. I ofyn am gopi mewn fformat arall, cysylltwch â Laura Roberts:

Ffôn: **029 2087 4455**

Ebost: **RobertsL9@caerdydd.ac.uk**



CARDIFF  
UNIVERSITY

PRIFYSGOL  
CAERDYDD

I gael gwybod rhagor am Ysgol  
Gwyddorau'r Ddaear a'r Amgylchedd,  
ewch i'n gwefan:

[www.cardiff.ac.uk/cy/earth-environmental-sciences](http://www.cardiff.ac.uk/cy/earth-environmental-sciences)

## Cysylltu â ni

Ffôn: **029 2087 4830**

Ebost: [enquiry@caerdydd.ac.uk](mailto:enquiry@caerdydd.ac.uk)

Ysgol Gwyddorau'r  
Ddaear a'r Amgylchedd  
Cardiff University  
Prif Adeilad  
Caerdydd CF10 3AT

## Cadwch mewn cysylltiad



cardiffuniug



@CU\_Earth

@cardiffuniug



@CU\_Earth

## Bywyd myfyrwr

Oes gennych chi gwestiynau am  
fywyd myfyrwr?

Cewch atebion yn:

<https://blogs.cardiff.ac.uk/insiders/cy/>

Hoffech chi gael gwybod rhagor am  
fywyd ym Mhrifysgol Caerdydd? Mae  
ein myfyrwyr sy'n ysgrifennu blogiau  
yn cofnodi eu profiadau ac yn fodlon  
ateb eich cwestiynau.

Myfyrwyr go iawn ydynt, sy'n astudio  
amrywiaeth o gyrsiau. Maent yma  
i ateb unrhyw gwestiynau sydd  
gennych am fywyd ym Mhrifysgol  
Caerdydd. Sut beth yw diwrnod  
arferol? Pa glybiau a chymdeithasau  
sydd yno? Ydy'r sin gerddorol yng  
Nghaerdydd o unrhyw werth? Gall  
fod am bron unrhyw beth.



THE SUNDAY TIMES  
GOOD  
UNIVERSITY  
GUIDE  
2022

PRIFYSGOL  
Y FLWYDDYN  
YNG  
NGHYMRU